


# Adroddiad blynyddol a chyfrifon Estyn

## 2025-2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael cyllid gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol
- trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Rydym hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, Medr ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Cynnwys Tudalen

**Rhagair y Prif Arolygydd** **1**

**Adran 1: Yr Adroddiad Perfformiad** **4**

**1.1 Trosolwg** **5**

**1.2 Dadansoddi perfformiad** **12**

Amcan Strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru 12
Amcan Strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a Medr 25
Amcan Strategol 3: Meithrin gallu ar gyfer gwella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru 34
Sut y cyflawnwn ein gwaith 37

**Adran 2: Yr adroddiad atebolrwydd** **47**

**2.1 Adroddiad llywodraethu corfforaethol** **48**

Adroddiad y Cyfarwyddwyr 48
Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu 49
Y datganiad llywodraethu 50

**2.2 Adroddiad ar gyflogau a staff** **56**

**2.3 Adroddiad atebolrwydd ac archwilio** **69**

**Adran 3: Datganiadau ariannol** **75**

3.1 Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn 76
ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 76
3.2 Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2026 77
3.3 Llif Arian 2025-2026 79
3.4 Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr 80
3.5 Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau 81

**Atodiad: Rhestr o acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn** **93**

# Rhagair y Prif Arolygydd

Mae pwrpas Estyn yn glir o hyd: rydym yn arolygu'n annibynnol, yn adrodd yn onest ac yn defnyddio ein tystiolaeth i gefnogi gwelliant. Mae ein gwaith dros ddysgwyr, dros Gymru. I gyflawni hyn, rydym yn parhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid i wella darpariaeth ledled Cymru.

Yn ystod 2025-2026, parhaom i ymwreiddio ein trefniadau arolygu newydd ar draws y rhan fwyaf o sectorau. Cwblhaom 385 o arolygiadau, cynnal gweithgarwch dilynol gyda darparwyr y mae angen iddynt wella fwyaf, a chryfhau'r ffordd rydym yn defnyddio ymweliadau interim, deialog broffesiynol ac adborth. Hefyd, ehangom gyfranogiad arolygwyr cymheiriaid a chydweithio â darparwyr a phartneriaid i fireinio fframweithiau mewn sectorau lle mae trefniadau newydd yn cael eu datblygu.

Mae ein tystiolaeth yn dangos system sydd â llawer o gryfderau. Ledled Cymru, gwelwn staff ymrwymedig, perthnasoedd gofalgar, diwylliannau cynhwysol a ffocws cryf ar les. Lle mae arweinwyr yn adnabod eu darpariaeth yn dda, yn gosod disgwyliadau uchel ac yn defnyddio tystiolaeth yn ddeallus, mae plant, disgyblion a dysgwyr yn gwneud cynnydd cryfach, fel arfer. Rydym yn parhau i weld gwaith effeithiol i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, dysgwyr y mae tlodi yn effeithio arnynt a dysgwyr o gymunedau amrywiol.

Ar yr un pryd, mae ein tystiolaeth hefyd yn nodi heriau parhaus. Mae ansawdd addysgu yn rhy amrywiol o hyd, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Mae gormod o ddysgwyr nad ydynt yn datblygu eu medrau darllen, rhifedd a digidol yn ddigon da. Mae presenoldeb islaw'r lefelau cyn y pandemig i lawer o blant a phobl ifanc o hyd, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu dysgu a'u lles. Mewn rhai darparwyr, mae hunanwerthuso'n rhyw ddisgrifiadol o hyd neu'n canolbwyntio ar gydymffurfiaeth. Nid pryderon unigryw yw'r rhain. Maent yn batrymau ar draws y system ac mae angen gweithredu clir a chynaledig arnynt.

Eleni, cryfhaom ein ffocws ar gefnogi blaenoriaeth genedlaethol. Ar ôl i Ysgrifennydd y Cabinet, Lynne Neagle AS ofyn i ni wneud hynny, cyhoeddom fod darllen yn flaenoriaeth strategol tair blynedd, oherwydd bod medrau darllen cryf yn datgloi'r gallu i fanteisio ar ddysgu ar draws y cwricwlwm a thu hwnt. Hefyd, parhaom i gefnogi gwaith i wella addysgu mathemateg, lleihau effaith tlodi ar ddysgu, rhoi diwygio anghenion dysgu ychwanegol ar waith, cefnogi arfer wrth-hiliol a hybu'r Gymraeg. Defnyddiom ein tystiolaeth arolygu a'n gwaith thematig i roi cyngor annibynnol i Lywodraeth Cymru, Medr a phwyllgorau'r Senedd.

Cyhoeddom 12 adroddiad thematig yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn ymdrin â meysydd pwysig, yn cynnwys presenoldeb, ymddygiad, mathemateg, ieithoedd

rhyngwladol, deallusrwydd artiffisial, dysgu oedolion, medrau byw'n annibynnol, anghenion dysgu ychwanegol ôl-16 ac addysg heblaw yn yr ysgol. Hefyd, cyhoeddom astudiaethau achos ac enghreifftiau byrrach o arfer ddiddorol o arolygiadau. Mae'r gwaith hwn yn helpu darparwyr i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac yn rhoi tystiolaeth i'r rhai sy'n llunio polisïau o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn mae angen ei newid.

Rydym wedi parhau i sicrhau bod ein gwaith yn fwy hygyrch. Trwy ddigwyddiadau Estyn yn Fyw, podlediad Sgwrs, fideos, astudiaethau achos a'n gwefan, rhannom ganfyddiadau mewn ffyrdd sy'n ddefnyddiol i weithwyr proffesiynol, rhieni a gofalwyr, a phartneriaid prysur. Cynhaliom raglen eang o ddigwyddiadau i randdeiliaid a hyfforddiant i arolygwyr. Parhaom hefyd â'n hymgyrch Barod yn Barod, gan helpu darparwyr i ddeall beth i'w ddisgwyl gan arolygiadau.

Mae ein gwaith yn dibynnu ar bartneriaethau cryf, gan gynnal ein hannibyniaeth. Yn ystod y flwyddyn, cydweithiom yn agos â Llywodraeth Cymru, Medr, Arolygiaeth Gofal Cymru, awdurdodau lleol, Cymwysterau Cymru, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a llawer o sefydliadau eraill. Ymgysylltom yn uniongyrchol â darparwyr a grwpiau proffesiynol, hefyd. Rydym yn gwerthfawrogi'r perthnasoedd hyn oherwydd eu bod yn helpu i sicrhau bod ein gwaith arolygu, cynghori a gwella yn parhau i fod wedi'i seilio ar realiti addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Parhaom hefyd i gryfhau Estyn fel sefydliad. Buddsoddom mewn dysgu staff, datblygu'r Gymraeg, diogelu arbenigedd, cydraddoldeb, lles, gwasanaethau digidol a systemau ariannol. Mae ymgysylltiad staff yn uchel o hyd a pharhaodd ein gwaith archwilio mewnol i roi sicrwydd ynghylch ein llywodraethu a'n rheolaethau. Gwrandawom ar adborth a chwynion hefyd, er mwyn i ni allu gwella ein prosesau a'r ffordd rydym yn cyfathrebu.

A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am sicrhau bod Estyn yn defnyddio arian cyhoeddus yn briodol ac yn effeithiol. Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut rydym wedi defnyddio ein hadnoddau i ddarparu arolygiadau, cyngor a chymorth annibynnol ar gyfer gwella. Mae hefyd yn adlewyrchu gofal a phroffesiynoldeb cydweithwyr ar draws Estyn, ein harolygwyr dan gontract a'r arolygwyr cymheiriaid niferus sy'n cyfrannu at ein gwaith.

Rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi gweithio gyda ni eleni: plant, disgyblion, dysgwyr, rhieni a gofalwyr, darparwyr, ymarferwyr, llywodraethwyr, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Medr a'n timau arolygu. Mae eu gonestrwydd a'u hymrwymiad yn ein helpu i wneud ein gwaith yn dda.

Daw'r flwyddyn sydd i ddod â newid pellach, yn cynnwys parhau i ddatblygu trefniadau arolygu a ffocws dyfnach ar ddarllen. Byddwn yn parhau i wrando, dysgu a gwella. Yn bwysicaf oll, byddwn yn parhau i adrodd yn glir ac yn annibynnol ar yr hyn sydd bwysicaf: ansawdd addysg a hyfforddiant, y safonau mae dysgwyr yn eu cyflawni a sut gall y system

wella i bob dysgwr yng Nghymru.



**Owen Evans**

Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifyddu

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn yn adran 3 yr adroddiad hwn gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 30 Gorffennaf 2026.





# Adran 1: Yr Adroddiad Perfformiad

## 1.1 Trosolwg

### Ein diben

Estyn yw Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae ein his-bennawd diwygiedig, sef "Dros ddysgwyr, dros Gymru" yn crynhoi ein diben i gefnogi'r system i wella ansawdd addysg a hyfforddiant a deilliannau i ddysgwyr. Gwnawn hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol o ansawdd uchel i Lywodraeth Cymru a dinasyddion Cymru. Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ein hariannu ganddi (adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

### Ein gweithgareddau






Yn ystod y flwyddyn, adolygom ein gwerthoedd trwy fyfyrio ar sut maent yn ymddangos yn ein gwaith o ddydd i ddydd, ein perthnasoedd â'n gilydd, a'r deilliannau rydym am eu cyflawni i ddysgwyr ledled Cymru. Trwy drafodaeth agored ac adborth, ystyriom a oedd y gwerthoedd yn teimlo'n berthnasol, yn glir ac yn ystyrlon o hyd, ac a oeddent yn adlewyrchu'r ymddygiad yr ydym am ei annog ar draws y sefydliad ac yn ein gwaith allanol. Helpodd hyn i ni eu mireinio'n gyfres o ymrwymiadau cytûn: gwneud yr hyn sy'n iawn, rhoi pobl yn gyntaf, cyflawni mwy gyda'n gilydd, ceisio tyfu ac arwain â phwrpas.

Mae manylion am ein rolau arolygwyr i'w gweld ar ein gwefan.

## Crynodeb o'n perfformiad

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol, sy'n amlinellu'r gweithgareddau

allweddol am y flwyddyn sy'n cefnogi cyflawni ein cenhadaeth, ein hamcanion ac yn adlewyrchu sut y cyflawnwn ein gwaith.

Mae ein Cynllun Blynyddol 2025-2026 yn amlinellu ein dull wrth i ni fynd ati i ymwreiddio'r cylch arolygu newydd.

- Canolbwyntiom ar ymwreiddio ein trefniadau arolygu newydd a dysgu o'u rhoi ar waith, a gweithredu ar adborth ynghylch sut gellir gwella'r broses arolygu ymhellach
- Estynnom ein defnydd o arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiadau, gan eu cynnwys mewn ymweliadau interim o dymor yr hydref ymlaen
- Darparom ddatblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant diweddaru i'n gweithlu allanol er mwyn sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n llawn ar gyfer arolygu

Bob blwyddyn, rydym yn gosod dangosyddion perfformiad uchelgeisiol i ni'n hunain ac mae ein Bwrdd Strategaeth yn monitro cyflawni'r targedau hyn yn rheolaidd.

Lluniwyd ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-2025 o fewn y graddfeydd amser statudol ac ni chafodd cyfrifon adnoddau blynyddol Estyn eu hamodi gan archwilwyr allanol.

Yn 2025-2026, cyflawnom ein lefel perfformiad ddisgwyliedig yn y rhan fwyaf o feysydd. Mae'r mesur dangosyddion isod yn nodi ein lefel perfformiad trwy gydol yr adroddiad.



| **ni fodlonwyd** | **bodlonwyd yn rhannol** | **bodlonwyd yn sylweddol** | **bodlonwyd** |
|---|---|---|---|

## Roedd digwyddiadau allweddol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys

**Haf 2025**

Darparom raglen sylweddol o ymgysylltu a hyfforddiant yn ystod tymor yr haf, gan gynnwys 8 o ddigwyddiadau i bartneriaid, 12 o ddigwyddiadau hyfforddiant allanol a 3 digwyddiad hyfforddiant mewnol. Roedd ein digwyddiadau i bartneriaid yn cynnwys fforymau ar draws nifer o sectorau, grŵp cyfeirio i Benaethiaid a digwyddiad Estyn yn Fyw a ganolbwyntiodd ar ein hadroddiad thematig ar ymddygiad mewn ysgolion. Roeddem hefyd yn bresennol yn Eisteddfod yr Urdd, gan gymryd lle ar stondin Cymwysterau Cymru a chynnal panel Holi ac Ateb ar y cyd ag uwch arweinwyr.

Canolbwyntiodd y gweithgarwch hyfforddiant allanol ar ddiweddariadau blynyddol ar gyfer arolygwyr pob oed, ysgolion arbennig a gynhelir ac UCDau, ôl-16 ac arolygwyr lleyg mewn lleoliadau yn Llandudno, Caerdydd ac Abertawe. Cynhaliom hyfforddiant arolygwyr proffesiynol cychwynnol ar gyfer y sector uwchradd a CPCP a chynnal sesiwn arall o’r Rhaglen Arweinwyr o Leiafrifoedd Ethnig. At ei gilydd, mynychodd dros 900 o gynrychiolwyr hyfforddiant allanol, gydag ymgysylltiad ychwanegol ar draws digwyddiadau i randdeiliaid a digwyddiadau mewnol (yr wythnos Dysgu a Datblygiad Proffesiynol a digwyddiad Cysylltu a Chydweithio’r Gwasanaethau Canolog).

Lansiom bum adroddiad thematig newydd yn ystod y tymor hwn, fel y rhestrir isod:

- Meithrin parch ar y ddwy ochr – hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd
- Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd – diweddariad ar gynnydd
- Datgloi potensial: Mewnwelediadau i wella addysgu ac arweinyddiaeth mewn addysg fathemateg
- Ieithoedd Rhyngwladol mewn Ysgolion yng Nghymru
- Twf Swyddi Cymru+ Adolygiad Dilynol

Cynrychiolodd ein Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Estyn yng nghynhadledd flynyddol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ym mis Mai, gan siarad am waith Estyn yn y sector hwn.

Cynhaliom ail gyfnod o’n hymgyrch Barod yn Barod i barhau i godi ymwybyddiaeth ynghylch disgwyliadau darparwyr cyn ac yn ystod arolygiad.

**Hydref**

Gwelodd ein rhaglen ymgysylltu a hyfforddiant dymor prysur arall o weithgarwch yn yr hydref, gyda 9 o ddigwyddiadau i bartneriaid, 12 o ddigwyddiadau hyfforddiant allanol a 4 digwyddiad hyfforddiant mewnol. Roedd hyn yn cynnwys lansio'r mewnwelediadau cynnar o Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd, a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Libanus yn y Coed Duon.

Mynychodd dros 500 o unigolion ein digwyddiadau i bartneriaid, a chymerodd dros 300 o gyfranogwyr ran yn ein gweithgarwch hyfforddiant, a oedd yn cynnwys hyfforddiant diweddaru blynyddol ar gyfer y sectorau ôl-16, ieuenctid, Cymraeg i oedolion ac ADY, hyfforddiant diweddaru ar y cyd ag AGC (yn y gogledd a'r de), hyfforddiant diweddaru tymhorol ar gyfer ACofM a hyfforddiant cychwynnol ar gyfer arolygwyr lleyg, ADY, GALlL (Cyfarwyddwyr Addysg) a CPCP. Hefyd, cynhaliom yr hyfforddiant cyntaf ar ymweliadau interim i arolygwyr cymheiriaid ar gyfer y sector cynradd a chynnal dwy sesiwn arall yn rhan o'r Rhaglen Arweinwyr o Leiafrifoedd Ethnig.

Cynhaliwyd pedwar digwyddiad hyfforddiant mewnol wyneb-yn-wyneb y tymor hwn, sef yr wythnos Dysgu a Datblygiad Proffesiynol ym mis Medi a mis Rhagfyr, digwyddiad Cysylltu a Chydweithio'r Gwasanaethau Canolog a chynhadledd i'r holl staff a ganolbwyntiodd ar werthoedd a rhoi cyfle i staff adolygu ac adnewyddu ein gwerthoedd a'n hymddygiadau.

Cyhoeddom ein ffocws manylach ar ddarllen y tymor hwn, a fydd yn cael ei ymgorffori mewn gweithgarwch arolygu o fis Medi 2026 ymlaen.

Lansiom bum adroddiad thematig newydd arall yn ystod y tymor hwn, fel y rhestrir isod:

- Addysgu Cwricwlwm i Gymru
- Medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn dysgu oedolion yn y gymuned
- Y Cwricwlwm Medrau Byw yn Annibynnol mewn Addysg Bellach: Creu cwricwlwm yn seiliedig ar fedrau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Oes Newydd: Sut mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn Cefnogi Addysgu a Dysgu
- Gweithredu agweddau ôl-16 ar Anghenion Dysgu Ychwanegol

Lansiom ein hail arolwg i randdeiliaid y tymor hwn i ddeall canfyddiadau o Estyn fel sefydliad ac effaith ein gwaith yn well. Caiff yr arolwg hwn ei gynnal yn brosiect tair blynedd i'n galluogi i feincnodi, myfyrio ac ystyried gwelliannau trwy gydol y flwyddyn.

Rhoddodd PAEF a Chyfarwyddwr Cynorthwyol gyflwyniadau yng nghynhadledd uwchradd genedlaethol CYDAG.

Ddechrau'r tymor hwn, cyflwynom raglen fisol o ddigwyddiadau Estyn yn Fyw, yn ogystal â dechrau cyhoeddi podlediadau misol yn canolbwyntio ar bynciau sy'n ymwneud ag

addysg a hyfforddiant, dan ein brand Sgwrs. Yn ystod y tymor, cynhaliom ddigwyddiadau Estyn yn Fyw i sbarduno trafodaethau ynghylch Arolygu ar gyfer Ysgolion ac UCDau, Addysgu Cwricwlwm i Gymru, Ieithoedd Rhyngwladol mewn Ysgolion yng Nghymru, a Gwella Addysgu ac Arweinyddiaeth mewn Addysg Fathemateg. Mae'r podlediadau a gyhoeddwyd y tymor hwn wedi'u rhestru isod

- Tynnu'r dirgelwch o'r broses arolygu ar gyfer ysgolion ac UCDau
- Y pryderon parhaus ynghylch presenoldeb mewn ysgolion
- Goresgyn heriau wrth addysgu darllen
- Myfyrdodau ar addysgu Mathemateg yng Nghymru

**Gwanwyn**

Ar 11 Chwefror, cyhoeddom Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2024-2025, gyda digwyddiad yn adeilad y Pierhead yn tynnu sylw at themâu trawsbynciol o waith arolygu a thematig. Mae'r adroddiad ar-lein yn cynnwys pedwar podlediad a nifer o fideos o astudiaethau achos arfer orau.

Yn ystod y tymor hwn, cynhaliom ddeg digwyddiad i bartneriaid, 8 digwyddiad hyfforddiant allanol ac 1 digwyddiad Cysylltu a Chydweithio ar gyfer staff y Gwasanaethau Canolog. Cyflwynom ein Sioe Deithiol  Mathemateg Uwchradd gyntaf i rannu canfyddiadau ein hadroddiad thematig diweddar a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Dysgu, gan gynnig chwe sesiwn mewn tri lleoliad i gefnogi arweinwyr canol wrth addysgu mathemateg. Roedd 186 o gynrychiolwyr yn bresennol yn y sesiynau hyn. Cynhaliom ddigwyddiad hyfforddiant ar gyfer Partneriaid Gwella Ysgolion o awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer eu defnyddio mewn ymweliadau interim yn rhan o'r cynllun peilot uwchradd/pob oed.

Rhoddodd ein huwch dîm dystiolaeth yn y pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Mawrth, gan ateb cwestiynau am ganfyddiadau adroddiad blynyddol PAEF.

Cynhaliom fini-uwchgynhadledd hefyd gyda Llywodraeth Cymru – Cymru Wrth-hiliol – i drafod y camau nesaf wrth symud yr agenda hon yn ei blaen.

Fe wnaethom arddangos a chyflwyno gweithdy yng nghynhadledd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a rhoddodd PAEF anerchiad yng nghynhadledd ASCL Cymru.

Roedd y digwyddiadau Estyn yn Fyw a gynhaliwyd y tymor hwn yn ymwneud ag Adroddiad Blynyddol PAEF: Negeseuon allweddol, ac Y Tu Mewn i Ymweliad Interim. Cynhaliom weminar hefyd yn benodol ar gyfer aelodau ASCL yn canolbwyntio ar ymweliadau interim.

Mae'r podlediadau a gyhoeddwyd y tymor hwn wedi'u rhestru isod, a sbardunodd drafodaethau ar effaith tlodi at addysg a sut mae deallusrwydd artiffisial (AI) yn cefnogi addysgu a dysgu.

Mae'r adroddiadau thematig a gyhoeddwyd y tymor hwn wedi'u rhestru isod:

- Archwilio'r Potensial: Deallusrwydd Artiffisial mewn Addysg Bellach
- Mwy na dewis olaf: Trefniadau ar gyfer gwasanaethau tiwtora AHY yng Nghymru, a'u hansawdd
- Cymorth Awdurdodau Lleol i ysgolion reoli eu cyllidebau

# 1.2 Dadansoddi perfformiad

### Perfformiad yn erbyn amcanion strategol

## Amcan Strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru

**Tabl 1: Arolygiadau craidd Estyn yn ôl sector 2025-2026**

| Sector | Nifer yn 2025-2026 | Nifer yn 2024-2025 |
|---|---|---|
| Lleoliadau meithrin nas cynhelir* | 94 | 89 |
| Ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin a gynhelir | 208 | 220 |
| Ysgolion uwchradd | 34 | 29 |
| Ysgolion pob oed | 5 | 6 |
| Ysgolion arbennig | 7 | 8 |
| Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) | 6 | 4 |
| Ysgolion Annibynnol (gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol) | 14 | 16 |
| Colegau arbenigol annibynnol | 2 | 0 |
| Addysg gychwynnol athrawon (AGA) | 0 | 3 |
| Gwasanaethau addysg llywodraeth leol | 3 | 4 |
| Sefydliadau addysg bellach | 2 | 3 |
| Dysgu yn y gwaith / prentisiaethau | 1 | 3 |
| Dysgu Oedolion (DO) | 2 | 4 |
| Gwasanaethau Ieuenctid (GI) | 3 | 3 |
| Cymraeg i Oedolion (CiO) | 1 | 2 |
| Trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol | 3 | 3 |
| **Cyfanswm nifer yr arolygiadau** | **385** | **397** |

* Arolygiadau ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (Pob ffigur – y flwyddyn ariannol)

## Trosolwg o arolygu 2025-2026

### Datblygu ein fframweithiau arolygu

Er mis Medi 2024, caiff mwyafrif helaeth ein sectorau eu harolygu gan ddefnyddio ein fframweithiau newydd. Mae'r diweddariadau isod yn darparu trosolwg o'r cryfderau allweddol a'r meysydd i'w gwella ar gyfer pob sector. Gan y bu'r trefniadau arolygu ar waith am bum tymor bellach, byddwch yn dechrau'r broses o gynnal adolygiad canol cylch y flwyddyn nesaf, gyda'r bwriad o gyflwyno unrhyw newidiadau ym mis Medi 2027.

Mae pedwar sector yn datblygu eu fframweithiau arolygu newydd. Mae'r rhain yn ymwneud â'n meithrinfeydd nas cynhelir, addysg gychwynnol athrawon, prentisiaethau a dysgu yn y sector cyfiawnder. Mae'r cynnydd ym mhob sector fel a ganlyn:

### Meithrinfeydd nas cynhelir

Trwy gydweithio ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), rydym wedi ymgysylltu ac ymgynghori â phartneriaid i ddatblygu fframwaith arolygu ar y cyd newydd ar gyfer y sector meithrinfeydd nas cynhelir. Bydd y fframwaith adnewyddedig yn cyflwyno dull cliriach sydd â mwy o ffocws, gan barhau i fod yn gyfarwydd i ddarparwyr. Mae hefyd yn cefnogi adroddiadau byrrach a mwy hygyrch sydd â ffocws cryfach ar yr hyn sydd bwysicaf i blant, rhieni ac ymarferwyr. Caiff ein trefniadau arfaethedig eu profi yn nhymhorau'r gwanwyn a'r haf, gyda'r bwriad o gyflwyno ein trefniadau newydd ym mis Medi.

### Addysg gychwynnol athrawon

Trwy gydweithio â phartneriaid, buom yn datblygu trefniadau arolygu newydd ar gyfer y sector addysg gychwynnol athrawon. Gan adeiladu ar ein hymgynghoriad diweddar, rydym yn ymgysylltu â phartneriaid i ddatblygu newidiadau, fel yr arolygydd cyswllt AGA newydd ar gyfer pob partneriaeth a symleiddio meysydd arolygu ein harolygiadau craidd. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein trefniadau, gyda'r bwriad o gyflwyno ein fframwaith newydd ym mis Medi 2027.

### Dysgu yn y sector cyfiawnder

Gan adeiladu ar ein trefniadau a ddiweddarwyd yn ddiweddar ar gyfer arolygu carchardai i ddynion, rydym wedi cydweithio â'n partneriaid i ddiweddaru ein trefniadau arolygu ar gyfer sefydliadau troseddwyr ifanc a chartrefi diogel i blant. Ymgynghorir ar drefniadau drafft y flwyddyn nesaf cyn i ni gadarnhau ein fframwaith.

### Prentisiaethau

Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull arolygu yn y sector prentisiaethau, gan gydnabod y dirwedd polisi a chomisiynu sy'n newid yng Nghymru a nodweddion nodedig darparu prentisiaethau. Ar ôl cwblhau'r cylch diweddaraf o arolygiadau craidd o brentisiaethau, trwy gydweithio â Medr, rydym wedi parhau i gasglu tystiolaeth gadarn am y sector trwy ymweliadau estynedig arolygwyr cyswllt. Bu cyflwyno adroddiadau mewnwelediadau â thema yn elfen bwysig o'r dull hwn. Yn ystod haf 2026, byddwn yn cyhoeddi adroddiad mewnwelediadau ar brentisiaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a chyfraddau cwblhau amserol ar draws pob pwnc, gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn ystod ein hymweliadau estynedig arolygwyr cyswllt. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Medr, y sector a phartneriaid eraill wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, gyda'r nod o roi trefniadau arolygu newydd ar waith yn ystod blwyddyn academaidd 2027-2028.

### Strategaeth y Gymraeg

Rydym yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol ac wedi llenwi'r holiadur hunanasesu gorfodol ar ein cydymffurfiaeth gyfreithiol â Safonau'r Gymraeg, fel sy'n ofynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg Strategol diwygiedig wedi'i ddrafftio, ond nid yw wedi'i gyhoeddi eto. Rydym yn bwriadu adolygu ein cynllun strategol ymhellach i gyd-fynd â pholisi defnydd mewnol o'r Gymraeg rydym yn ei ddatblygu yn dilyn arweiniad i gyrff cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn gynharach yn y flwyddyn.

Eleni, rydym wedi cyfoethogi ein harlwy hyfforddiant Cymraeg trwy drefnu cwrs pwrpasol, dwys i staff yn Nant Gwrtheyrn ar lefel Mynediad/Sylfaen. Mynychodd dau aelod staff arall gwrs dwys tebyg a oedd ar agor i'r cyhoedd. Rydym hefyd wedi cefnogi cydweithwyr i ddod o hyd i gyrsiau dilynol priodol, lle bo hynny'n bosibl, ac rydym yn ymchwilio i ffyrdd eraill o gefnogi staff i barhau â'u dysgu. Ym mis Ionawr 2026, lansiom gynllun mentora, gan baru dysgwyr Cymraeg â siaradwyr Cymraeg rhugl, i gefnogi staff ar eu teithiau iaith.

Trefnom gwrs Gloywi hybrid ar gyfer siaradwyr rhugl sydd am wella eu defnydd proffesiynol o'r Gymraeg.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn nodi diben cyffredin i gyflawni ansawdd bywyd gwell a pharhaus i bob un ohonom. Er nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol i ni, gan nad ydym yn gorff cyhoeddus rhestredig ar ddibenion y Ddeddf, rydym yn chwarae ein rhan o ran cyflawni'r weledigaeth hon ar gyfer pobl Cymru o hyd. Mae ein hamcanion strategol yn cefnogi'r cyfraniad hwn trwy ganolbwyntio ar wella deilliannau i ddysgwyr, llywio polisi cenedlaethol, a meithrin gallu i wella ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae ein Cynllun Blynyddol hefyd yn ei gwneud yn glir bod Estyn yn ymrwymo i gyfrannu at ansawdd bywyd gwell a pharhaus i bawb, yn unol ag egwyddorion y Ddeddf.

Cyfrannodd ein gwaith arolygu, atebolrwydd a gwella trwy barhau i ymwreiddio trefniadau arolygu, gan gynnwys arolygiadau craidd ac ymweliadau interim. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi darparwyr i nodi cryfderau ac ystyried y camau nesaf ar gyfer gwella.

Mae ein gweithgarwch meithrin gallu wedi cyfrannu'n uniongyrchol trwy:

- ddatblygu trefniadau arolygu mewn partneriaeth â darparwyr a rhanddeiliaid, ar draws ystod o sectorau.
- defnyddio ymweliadau interim, deialog broffesiynol ac adborth i gefnogi ysgolion ac UCDau i adolygu cynnydd a nodi'r camau nesaf ar gyfer gwella.
- rhannu mewnwelediadau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, arfer dda, astudiaethau achos, canfyddiadau thematig, gweminarau Estyn yn Fyw a phodlediad Sgwrs fel bod ein gwaith yn hygyrch, yn ddifyr ac yn ddefnyddiol i weithwyr proffesiynol addysg a hyfforddiant.
- cyfrannu at flaenoriaethau cenedlaethol gan gynnwys Cymraeg 2050, lleihau effaith tlodi ar ddysgu a chyrhaeddiad, gwrth-hiliaeth, cynhwysiant LHDTC+, diwygio ADY a Chwricwlwm i Gymru.
- darparu cyngor wedi'i seilio ar dystiolaeth i Lywodraeth Cymru a Medr trwy dystiolaeth arolygu, adolygiadau thematig, gweithgorau cenedlaethol, ymatebion i ymgynghoriadau a'r Adroddiad Blynyddol.
- cryfhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy fforymau rhanddeiliaid a gweithio i hybu gweithlu addysg ac arolygwyr cymheiriaid mwy amrywiol.
- cefnogi cynaliadwyedd a ffyrdd hirdymor o weithio trwy ein strategaeth data a digidol, rheoli adnoddau'n well, defnyddio deallusrwydd artiffisial, lle bo hynny'n briodol, ymrwymiadau i'r Gymraeg a gweithrediadau sy'n amgylcheddol gynaliadwy.

## Ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion

Mae sicrhau ansawdd (SA) ein trefniadau a'n harferion arolygu yn parhau trwy sicrhau ansawdd pob adroddiad arolygu a monitro ansawdd ar y safle. Caiff canfyddiadau'r holl weithgareddau SA eu hystyried yn rhan o'n proses wella sy'n cynnwys adolygu a mireinio ein trefniadau arolygu.

Yn y sectorau uwchradd a phob oed, rydym wedi peilota defnyddio Partneriaid Gwella Ysgolion mewn YIau. Mae'r gwaith hwn yn parhau a bydd yn cael ei werthuso yn nhymor yr haf 2026.

Yn y sector cynradd, o fis Medi 2025 hyd fis Mawrth 2026, defnyddiwyd 19 o arolygwyr cymheiriaid yn rhan o dîm neu i gysgodi mewn YIau. Gwahoddwyd 25 o arolygwyr cymheiriaid i gysgodi neu fod yn rhan o dîm mewn YIau cynradd ar gyfer tymor yr haf 2026.

### Ysgolion prif ffrwd ac arbennig annibynnol

Mae'r holl gamau gweithredu a nodwyd ar gyfer 2025–2026 wedi'u cwblhau. Cynhaliwyd arolygiadau craidd ym mhob ysgol annibynnol a oedd i fod i gael arolygiad yn ystod y cylch, gan werthuso cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 ac adrodd yn erbyn y fframwaith arolygu diwygiedig. Cwblhawyd arolygiadau monitro hefyd, fel y cynlluniwyd, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r rheoliadau, a chynhaliwyd ymweliadau dilynol, yn ôl y gofyn, i gefnogi ysgolion i fodloni'r safonau.

Trwy gydol y flwyddyn, parhaom i werthuso cydymffurfiaeth ysgolion â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 ac olrhain effaith y fframwaith arolygu diwygiedig. Mae tystiolaeth adborth yn dangos bod y fframwaith yn cefnogi diwylliant o welliant parhaus ar draws y sector. Cynigiwyd cymorth i ysgolion yr oedd angen iddynt wella, gan gynnwys craffu ar gynlluniau gweithredu ac ymgysylltiad dilynol i sicrhau y cawsant eu rhoi ar waith yn effeithiol.

Cynhaliwyd ffocws cryf ar ysgolion sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag ADY er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn bodloni anghenion penodol disgyblion ac yn cefnogi eu cynnydd. Yn ogystal, darparwyd hyfforddiant targedig i arolygwyr i gryfhau arbenigedd wrth gymhwyso'r rheoliadau a gwerthuso meysydd allweddol fel darpariaeth ADY, diogelu a chynllunio gwelliant.

At ei gilydd, mae cwblhau'r camau gweithredu hyn wedi cryfhau ein prosesau arolygu a monitro ac wedi cefnogi gwelliant mewn addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth ar draws ysgolion annibynnol yng Nghymru.

### Lleoliadau meithrin nas cynhelir

Mae gwaith wedi parhau'n gyflym y flwyddyn academaidd hon i sicrhau y caiff y fframwaith ei gyflwyno'n brydlon. Rhannwyd y fframwaith drafft ag aelodau'r grŵp rhanddeiliaid lleoliadau meithrin nas cynhelir a chafwyd sylwadau cadarnhaol iawn. Mae pedwar arolygiad prawf wedi'u cynllunio'n gynnar yn nhymor yr haf, gyda phedwar arolygiad peilot arall yn cael eu cynnal yn ystod tymor yr haf.

Cafodd 30 ACofM newydd hyfforddiant ar ddiwedd tymor y gwanwyn a chaiff pob un ohonynt eu lleoli ar gyfer Rhan 2 yr asesiad yn ystod blwyddyn academaidd 2026/27. Bydd hyn yn dyblu nifer ein ACofMau ac yn ein helpu i gyflawni ein nifer gynlluniedig o arolygiadau bob blwyddyn.

Trefnwyd digwyddiadau hyfforddiant yng ngogledd a de Cymru ym mis Mehefin ac, o bosibl, mis Medi, i hyfforddi arolygwyr AGC/AEF/ACofM ar y fframwaith newydd.

Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni nifer yr arolygiadau cynlluniedig eleni o hyd.

### Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Cwblhawyd pob arolygiad GALlL (a gwaith ieuenctid cysylltiedig) yn unol â'r amserlen, heb unrhyw broblemau sylweddol yn codi.

### Y sector gwaith ieuenctid

Yn ystod tymor yr haf, cynhaliom arolygiad â thema ar draws pedwar sefydliad gwaith ieuenctid gwirfoddol. Ym mis Medi, cyflwynom hyfforddiant diweddaru ar gyfer arolygwyr cymheiriaid. Cynhaliwyd arolygiadau yn awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot, Sir Fynwy a Phen-y-bont ar Ogwr yn ystod tymhorau'r haf, yr hydref a'r gwanwyn, yn y drefn honno. Trwy gydol y flwyddyn, ymgysylltom yn weithredol â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector.

### Trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol

Erbyn diwedd mis Mawrth 2026, byddwn wedi arolygu darpariaeth trochi yn y Gymraeg mewn tri awdurdod lleol er mis Ebrill 2025. Mae'r rhain yn cynnwys Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Bu'n rhaid aildrefnu'r arolygiad o ddarpariaeth ALl Abertawe ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 oherwydd gwrthdaro ag ymweliad estynedig arolygydd cyswllt GALlL.

Rydym yn parhau i feithrin gallu yn y sector, gan gynnwys AEF ac arolygwyr cymheiriaid. Bu'n heriol rhaglennu AEF â phrofiad a medrau perthnasol yn y maes hwn ar adegau, oherwydd beichiau ar y rhaglen waith. O ganlyniad, bu'n rhaid i ni ddyrannu arolygydd ychwanegol i arolygiad Bro Morgannwg.

Rydym wedi cael trafodaethau â LlC ynghylch eu gwaith i ddatblygu arweiniad i gefnogi ALlau a chanolfannau trochi. Byddwn yn parhau i gyfarfod â nhw bob tymor i'w cefnogi â'r datblygiad hwn.

### Sectorau ôl-16

Erbyn diwedd mis Mawrth 2026, byddwn wedi cwblhau'r gweithgarwch arolygu a gynlluniwyd gennym ar gyfer y flwyddyn.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, cwblhaom y cylch arolygu blaenorol ar gyfer darparwyr prentisiaethau erbyn mis Awst 2025.

Fel y cytunwyd gyda Medr, rydym wedi oedi arolygiadau craidd o ddarparwyr prentisiaethau am 2 flynedd er mwyn caniatáu i Medr ymgynghori ar raglen brentisiaeth newydd a fydd yn cael ei chynnal o 1 Awst 2027, ei datblygu a'i rhoi ar waith. Yn lle hynny, rydym wedi cynnal gwaith arolygydd cyswllt estynedig â ffocws penodol ar iechyd a gofal cymdeithasol, a fydd yn arwain at gyhoeddi adroddiadau mewnwelediadau cynnar yn nhymor yr haf 2026.

Rydym wedi meithrin perthynas waith effeithiol gyda Medr. Roedd hyn yn cynnwys gweithredu cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-2026, yn ogystal â datblygu'r trefniadau cyllid grant o fis Ebrill 2026, pan ddechreuodd ein cyllid ar gyfer gwaith mewn addysg drydyddol ddod yn uniongyrchol gan Medr. Trwy ein rôl fel arsylwr ar Bwyllgor Ansawdd Medr, roeddem yn gallu sicrhau bod tystiolaethau o arolygiadau'n llywio trafodaethau'r pwyllgorau, lle bo hynny'n berthnasol.

Rydym yn parhau i gydweithio â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) i rannu arbenigedd a dod â mwy o gydlyniad i'n prosesau arolygu ac adolygu ansawdd ar draws darparwyr addysg drydyddol. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar brosiect ar y cyd â QAA i gefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant effeithiol ar draws pob darparwr addysg drydyddol. Caiff hwn ei gyhoeddi yn ystod haf 2026. Buom hefyd yn adolygu sut y byddem yn ymateb i unrhyw bryderon sylweddol sy'n cael eu codi ar ddarparwr rydym yn ei arolygu.

### Cymraeg i Oedolion

Fel y cynlluniwyd, rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad arolygu cyntaf â thema ar Gymraeg Gwaith (Medi 2025), cwblhau arolygiad craidd o ddarparwr Dysgu Cymraeg (Rhagfyr 2025) a chwblhau'r gwaith maes ar gyfer ein hail arolygiad â thema o Gymraeg yn y gweithlu addysg (Gwanwyn 2026). Rydym wedi addasu ein trefniadau cynllunio ar gyfer yr ail arolygiad â thema ar ôl myfyrio ar ein trefniadau arolygu newydd.

### Dysgu yn y sector cyfiawnder

Arolygom y cartref diogel i blant ym mis Tachwedd 2025. Cyrhaeddom gydag AGC, ond gan eu bod nhw wedi dewis wythnos ar gyfer eu harolygiad pan nad oedd y ddarpariaeth addysg yn cael ei chynnal (hanner tymor), arolygom yr wythnos ganlynol. Byddwn yn adolygu ein memorandwm cyd-ddealltwriaeth a'n trefniadau gwaith gydag AGC ar ôl yr arolygiad hwn.

Ar ôl cyfnod o ymgynghori a pheilota ein trefniadau ym mis Chwefror 2025, gwnaethom waith gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi i gadarnhau'r trefniadau arolygu newydd i'w rhoi ar waith o fis Ebrill 2026 ymlaen.

Hefyd, cynhaliom arolygiad dirybudd ochr yn ochr ag Arolygiaeth Carchardai EF ym mis Mawrth 2026.

### Diogelu

Parhaom i gryfhau ein gwaith i sicrhau bod diogelu wrth wraidd gweithgarwch arolygu ac arfer sefydliadol Estyn o hyd. Erbyn hyn, mae'r dull cryfach a gyflwynwyd ym mis Medi 2024 wedi'i ymwreiddio ar draws gwaith arolygu a systemau mewnol ac mae diogelu'n cael ei flaenoriaethu'n gyson wrth gynllunio arolygiadau, casglu tystiolaeth a llunio adroddiadau.

Yn ystod y flwyddyn, datblygom allu staff ymhellach trwy ddysgu proffesiynol targedig e.e. hyfforddiant teilwredig ar ddyletswydd Atal (Prevent), trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a dull arolygu sy'n ystyriol o drawma i gefnogi arolygwyr wrth iddynt weithio gyda dysgwyr bregus a chyd-destunau diogelu sensitif. Ar ben hynny, cwblhaodd yr holl swyddogion arweiniol diogelu a'r cyfarwyddwyr cynorthwyol hyfforddiant diogelu manylach wedi'i hwyluso gan NSPCC, gan gryfhau gallu arweinwyr a goruchwyliaeth o ddiogelu ar draws sectorau.

Rydym wedi parhau i gynnig cymorth uniongyrchol i arolygwyr pan fydd pryderon diogelu yn codi yn ystod gweithgarwch arolygu. Mae'r cymorth hwn yn cynnig ymateb uniongyrchol a chyflym i helpu timau arolygu i reoli sefyllfaoedd sensitif yn hyderus a sicrhau yr eir i'r afael â phryderon yn brydlon ac yn briodol. Mae adborth gan arolygwyr yn dangos bod y cymorth ymatebol hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r tîm wedi'i chael hi'n anodd ymateb pan fydd arweinwyr diogelu eu hunain yn rhan o weithgarwch arolygu. I fynd i'r afael â hyn, sefydlwyd rota amserlenedig o argaeledd swyddogion arweiniol diogelu er mwyn sicrhau bod rhywun ar gael yn gyson a chynnal cymorth cyflym i arolygwyr.

Cwblhaom adolygiad mewnol cynhwysfawr o drefniadau arolygu Estyn ym mis Tachwedd 2025. Archwiliodd yr arolygiad ddiogelu ar draws fframweithiau arolygu, gweithredu polisïau mewnol, hyfforddiant, llunio barnau a defnyddio gwybodaeth am ddiogelu. Cadarnhaodd fod trefniadau diogelu Estyn yn gryf, yn gredadwy ac wedi'u hymwreiddio'n broffesiynol, gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer arolygu a sicrwydd sefydliadol. Mae'r adolygiad yn cynnig cyfeiriad clir i ddatblygu ymhellach wrth i ni symud tuag at gylch fframwaith arolygu 2026–27, gyda ffocws ar wella cysondeb, dyfnhau arfer werthusol a defnyddio gwybodaeth am ddiogelu yn well.

Mae ymgysylltu allanol wedi parhau i fod yn agwedd gref ar ein gwaith diogelu. Mae Estyn wedi parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân

ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), gan gyfrannu at weithdrefnau diogelu cenedlaethol a dysgu proffesiynol ehangach.

Cryfhaodd Estyn y trefniadau arolygu ar y cyd ag AGC trwy ddatblygu fframwaith cydweithredol i gefnogi adolygiadau thematig cenedlaethol ac arolygiadau ar y cyd sy'n canolbwyntio ar ddiogelu ac amddiffyn plant. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad cenedlaethol o weithdrefnau Adran 5 ac arolygiad diogelu ar y cyd yng Ngwynedd, gan helpu i wella atebolrwydd amlasiantaeth a dealltwriaeth o arfer ddiogelu ledled Cymru.

### Gweithgarwch dilynol

Cynhaliwyd trefniadau monitro ffurfiol ar gyfer darparwyr y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt ar ôl arolygiad craidd. Mae gweithgarwch monitro wedi'i drefnu a'i gynnal yn unol â'r amserlenni cytûn.

Nid oes unrhyw ysgolion a gynhelir nac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn y categori adolygu gan Estyn mwyach yn nhymor y gwanwyn 2026.

Cynhaliwyd cydweithio â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gefnogi'r rhaglen amlasiantaeth ar gyfer ysgolion uwchradd sy'n peri pryder. Mae ymgysylltiad arall wedi cynnwys cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad, datblygu ymhellach rôl yr AEF bugeiliol mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed a chymryd rhan mewn gweithgarwch adolygu ar gyfer ysgolion uwchradd, pob oed ac UCDau yn y categori mesurau arbennig. Rydym hefyd wedi datblygu a chyhoeddi arweiniad ar gefnogi ysgolion ac UCDau sy'n cael eu rhoi mewn categori statudol.

Darparwyd cymorth arolygwyr cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol sy'n peri pryder. Cynhaliwyd cynadleddau gwella ac ymweliadau monitro yn ôl y gofyn, gan ddarparu lefelau priodol o her a chymorth.

Mae gwaith dilynol gyda darparwyr ôl-16 y nodwyd eu bod yn peri pryder trwy arolygiad wedi parhau. Cynhaliwyd ymgysylltiad cychwynnol â Llywodraeth Cymru a Medr i gadarnhau rôl Estyn wrth gefnogi darparwyr a allai fod mewn perygl o fethu cydymffurfio ag amod ansawdd a gwelliant parhaus Medr. Mae trafodaethau cynnar wedi llywio datblygiad dulliau cytûn a fydd yn cael eu trafod a'u cytuno â phartneriaid yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

## Nifer y darparwyr a roddwyd mewn categorïau gweithgarwch dilynol ac a dynnwyd ohonynt ym mlwyddyn ariannol 2025-2026[1]

### (a) Gweithgarwch dilynol statudol (mesurau arbennig / gwelliant sylweddol), gwelliant â ffocws ac ailarolygu

| Sector | Mewn categori gweithgarwch dilynol ar ddechrau'r flwyddyn | Rhoddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol ar ôl arolygiad craidd yn ystod y flwyddyn | Cyfran yr arolygiadau a gynhaliwyd lle rhoddwyd darparwyr mewn categori | Wedi israddio lefel y gweithgarwch dilynol | Tynnwyd o gategori gweithgarwch dilynol yn ystod y flwyddyn | Mewn categori gweithgarwch dilynol ar ddiwedd y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion a gynhelir ac UCDau | 83 | 27 | 11.4% | 2 (1 GS i MA ac 1 AE i MA) | 46 | 64 |
| Meithrinfeydd nas cynhelir | 2 | 1 | 1.2% | 0 | 2 | 1 |
| GALlL | 1 | 0 | 0% | 0 | 0 | 1 |
| Ôl-16 | 1 | 0 | 0% | 0 | 1 | 0 |
| AGA | 1 | 0 | 0% | 0 | 0 | 1 |

**Gostyngodd nifer yr ysgolion a gynhelir a'r UCDau yn y categori mesurau arbennig neu welliant sylweddol yn ystod y flwyddyn o 83 i 64.**

### (b) Adolygu gan Estyn / monitro gan Estyn / Adolygu cynnydd / Awdurdod lleol sy'n peri pryder difrifol

| **Sector** | **Yn y lefel hon o weithgarwch dilynol ar ddechrau'r flwyddyn** | **Rhoddwyd yn y lefel hon o weithgarwch dilynol ar ôl arolygiad craidd yn ystod y flwyddyn** | **Cyfran yr arolygiadau a gynhaliwyd lle rhoddwyd darparwyr yn y lefel hon o weithgarwch dilynol** | **Wedi israddio lefel y gweithgarwch dilynol** | **Tynnwyd o'r lefel hon o weithgarwch dilynol yn ystod y flwyddyn** | **Yn y lefel hon o weithgarwch dilynol ar ddiwedd y flwyddyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion a gynhelir ac UCDau | 26 | 0 | 0% | 1 (AE i MA) | 26 | 0 |
| Meithrinfeydd nas cynhelir | 1 | 0 | 0% | 0 | 1 | 0 |

Mae'r ffigurau wedi'u seilio ar ddata sydd wedi'i storio yn ein system yn hytrach na dyddiad cyhoeddi'r adroddiad.

Rhoddom y gorau i ddefnyddio Adolygu gan Estyn fel categori gweithgarwch dilynol ar gyfer arolygiadau craidd ysgolion ac UCDau a gynhelir o dymor yr hydref 2024 ymlaen. Rydym wedi parhau i adolygu cynnydd ysgolion/UCDau a roddwyd yn y categori Adolygu gan Estyn gydag awdurdodau lleol cyn mis Medi 2024. Mae'r adolygiadau hyn yn debygol o barhau hyd at fis Rhagfyr 2025.

Pan gaiff darparwr ei roi mewn categori monitro statudol, mae'n ofyniad statudol i'r corff llywodraethol lunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA) ac i'r awdurdod lleol ysgrifennu datganiad gweithredu yn syth ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. Mae arolygwyr yn cyfarfod â'r darparwr a'r awdurdod lleol i sicrhau bod y cynlluniau'n debygol o arwain at y gwelliannau gofynnol, cyn i'r cynlluniau gael eu hanfon at Lywodraeth Cymru. Rydym yn galw'r ymweliadau hyn yn ymweliadau CGOA.

Wedi i'r cynlluniau gael eu derbyn, rydym yn monitro cynnydd y darparwyr hyn. Ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau yn y categori mesurau arbennig, caiff yr ymweliadau monitro hyn eu cynnal bob pedwar i chwe mis. Yn ymarferol, bob tymor y mae hyn, fel arfer. Ar gyfer darparwyr sy'n cael eu rhoi yn y categori gwelliant sylweddol, rydym yn dychwelyd i fonitro cynnydd tua 12 i 18 mis ar ôl yr arolygiad craidd.

Rydym yn parhau i gydweithio ag ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi gwelliannau. Yn benodol, rydym yn cydweithio'n agos ag arweinwyr ysgolion i ystyried sut y gallant gyfrannu mwy at y broses fonitro, i feithrin gallu a sicrhau y gallant sicrhau bod adborth monitro yn cyd-fynd ag agweddau eraill ar eu trefniadau gwerthuso a gwella. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi'r rhaglen amlasiantaeth yn y sectorau uwchradd a phob oed.

O ran ein mesurau perfformiad:

**Nid oedd angen diwygio unrhyw un o'n hadroddiadau arolygu yn sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd ar ôl ei gyhoeddi o ganlyniad i her, a chyhoeddwyd pob un ohonynt mewn modd amserol.**



**Mae 97% o ddarparwyr yn mynegi boddhad â dibynadwyedd ac annibyniaeth canfyddiadau arolygu.**



## Adborth

**Cafwyd tair cwyn ffurfiol am y broses arolygu yn 2025-2026.**

Cawsom lawer o adborth cadarnhaol am ein gwaith hefyd, trwy ddulliau adborth ffurfiol ac yn ddigymell. Dyma ddetholiad o'r sylwadau rydym wedi'u cael am ein gweithgarwch arolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

**Pennaeth ysgol gynradd:** Roedd y staff a minnau eisiau diolch yn ddiffuant i dîm Estyn am y ffordd y cynhaliwyd yr arolygiad yr wythnos hon. Helpodd eu dull pwyllog, proffesiynol a chefnogol i dawelu meddyliau'r staff a minnau fel yr enwebai trwy'r broses gyfan. Creodd agwedd y tîm awyrgylch cadarnhaol yn yr ysgol a gwnaeth i'r hyn a allai fod wedi bod yn brofiad llawn straen deimlo'n adeiladol a theg. Roeddem wir yn gwerthfawrogi'r ffordd y gwnaethant ymgysylltu â'n disgyblion, staff a llywodraethwyr, a pha mor glir y gwnaethant gyfleu pob cam. Roedd yn brofiad gwerthfawr i ni fel ysgol, ac rydym yn ddiolchgar am y parch a'r eglurder a ddangoswyd gan y tîm arolygu o'r dechrau i'r diwedd.

**Pennaeth ysgol gynradd ynghylch y broses gweithgarwch dilynol:** Mae'r broses hon wedi bod yn gynhyrchiol ac mor ddefnyddiol yn barhaus. Ar gyfer mesurau arbennig, gan fod AEF yn ymweld bob tymor, bu'r cynnydd a chyflawni gwelliannau'n gynyddrannol yn ddim byd ond yn ddefnyddiol. Mae wedi rhoi cyfeiriad clir i bawb, y mae pawb wedi'i ddeall... Y rhan gynaliadwy o fesurau arbennig – y prif ddeilliant dysgu, yw bod monitro wedi symud i ffwrdd o'r hyn y mae athrawon yn ei wneud ac wedi symud i gynnydd disgyblion. Y pwynt unigol hwn sydd wedi gwneud y gwahaniaeth mwyaf a'r hyn y mae pawb yn ei ddeall nawr yw 'gwella'r ysgol'.

**Pennaeth ysgol uwchradd:** Roeddwn i eisiau anfon neges e-bost atoch i ddiolch i chi a'r tîm cyfan am gynnal ein harolygiad Estyn mor dda yr wythnos diwethaf. Fel y gwyddoch, pan gefais yr alwad gyntaf dim ond 4 diwrnod ar ôl dechrau prifathrawiaeth newydd, roeddwn i'n llawn ofn ond, wrth edrych yn ôl, rwy'n sylweddoli ei bod yn broses ardderchog i mi fod yn rhan ohoni mor gynnar ac mae wedi rhoi argymhellion clir i mi weithio arnynt â'r tîm yn y dyfodol. Diolch i chi am fod yn gefnogol ac yn ofalgar iawn, nid

yn unig yn ystod wythnos yr arolygiad ei hun, ond yn yr wythnosau cyn hynny – rwy'n sicr bod hyn wedi fy helpu i fod yn bwyllog ac yn bositif ar gyfer staff a disgyblion yr ysgol. Hoffwn ddiolch hefyd i'r tîm cyfan; roedd pob un o'r arolygwyr yn broffesiynol ac yn drylwyr dros ben, ond hefyd yn gefnogol ac yn ofalgar drwyddi draw. Ar y dydd Mawrth, gofynnodd Owen Evans i mi sut oeddwn i'n teimlo y gallai arolygiadau achosi llai o straen i ysgolion, a'r ateb i mi yn bendant yw cael arolygwyr fel y rhai y cawson ni: proffesiynol, trylwyr, teg, ond hefyd yn ofalgar, yn gefnogol ac yn "ddynol".

**Pennaeth ysgol arbennig a gynhelir:** Roedd y tîm yn rhagorol drwyddi draw, gwnaethant i'r staff deimlo'n gyfforddus o'r cychwyn cyntaf ac annog y staff i gyflawni eu rolau fel y byddent, fel arfer. Roedd cyfleoedd i'r staff sgwrsio'n anffurfiol â'r tîm ac roedd y staff yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Roedd yr holl dîm yn hapus, yn hawdd ymdrin â nhw ac yn cefnogi'r staff, lle bo modd, i fod yn hamddenol ac yn gyfforddus. Sicrhaodd hyn fod y staff yn gallu rhoi o'u gorau. At ei gilydd, cynhaliwyd a rheolwyd yr arolygiad yn dda iawn ac roedd staff yr ysgol yn teimlo y cawsant eu cefnogi'n fawr gan y tîm. A minnau'n Enwebai, roeddwn i'n teimlo bod cyfleoedd da iawn ar gyfer trafodaeth broffesiynol a chefais fy nghynnwys trwy gydol y broses a gwrandawyd ar fy marn a'm llais, hefyd. Fel proses, rwy'n teimlo ei bod yn gadarnhaol iawn ac, yn bwysicach fyth, yn un y gallem ni fel ysgol gymryd llawer ohoni a gwneud cynnydd.

**Rheolwr: Cymraeg i Oedolion:** Roeddwn i eisiau cysylltu'n uniongyrchol i ddiolch i chi (a'r tîm) am yr adroddiad ar gynlluniau Cymraeg Gwaith. Mae'n rhoi ffocws clir i ni o ran cynllunio at y dyfodol. Cawsom gyfarfod o Grŵp y Gweithle ar ddechrau'r wythnos a chawsom sgwrs gadarnhaol iawn â'r Rheolwyr a'u swyddogion am y blaenoriaethau. Rwy'n siŵr y bydd gennym lawer o bethau diddorol i adrodd arnynt pan welwch chi ni nesaf.

## Amcan Strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a Medr

Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu ein ffocws ar 'Ddarllen' fel ein blaenoriaeth strategol 3 blynedd. Rydym wedi cynnal digwyddiad 'Byw' Estyn ar gyfer ysgolion cynradd i esbonio ein ffocws manylach ar ddarllen a rhannu gwybodaeth lefel uchel am ein trefniadau peilota yn nhymor y gwanwyn. Mae rhaglen fanwl o ddysgu proffesiynol ar waith ar gyfer staff mewnol. Cyflwynwyd Modiwlau 1 a 2 yn ystod yr wythnos DDP ym mis Rhagfyr a chawsant groeso mawr. Caiff Modiwlau 3 a 4 eu cyflwyno yn ystod yr wythnos DDP ym mis Ebrill. Rydym hefyd wedi ffilmio fideo 20 munud ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd i'w ddefnyddio fel ffocws rhagarweiniol yn ystod hyfforddiant diweddaru i arolygwyr allanol yn nhymor yr haf.

Rydym hefyd wedi nodi 'Addysgu mathemateg' yn flaenoriaeth ychwanegol ac wedi cael ein cefnogi gan Lywodraeth Cymru i ddarparu dysgu proffesiynol i athrawon.

Wrth lansio'r Adroddiad Blynyddol, nododd y Prif Arolygydd ei fod yn dwyn ynghyd dystiolaeth arolygu ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru i ddarparu darlun ehangach o sut mae'r system yn gweithio i ddysgwyr. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod llawer i'w ddathlu ar draws y sectorau o hyd, gan gynnwys perthnasoedd cryf, diwylliannau cynhwysol ac ymrwymiad clir i les dysgwyr. Mae hefyd yn cydnabod, lle mae darpariaeth wedi'i theilwra'n dda, bod llawer o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n cael profiad o dlodi, yn gwneud cynnydd cadarn o leiaf. Mae diogelu yn gryfder cyson o hyd, wedi'i gefnogi gan ddylunio cwricwlwm mewn modd meddylgar ac arweinyddiaeth ymroddedig mewn llawer o leoliadau.

Ar yr un pryd, mae'r adroddiad yn ei gwneud yn glir bod heriau pwysig o hyd. Yn benodol, mae ansawdd yr addysgu yn rhy amrywiol o hyd, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Mae hefyd yn tynnu sylw at anghysondebau mewn datblygu medrau dysgwyr, yn enwedig mewn rhifedd, cymhwysedd digidol ac uwch fedrau darllen. Mae presenoldeb ymhell islaw'r lefelau cyn y pandemig o hyd ar gyfer gormod o ddysgwyr, sy'n cyfyngu ar eu cynnydd a'u hymgysylltiad â'u dysgu.

Yn ogystal â hyn, pwysleisiodd y Prif Arolygydd fod yr adroddiad yn helpu i nodi'r materion hyn nid fel pryderon neilltuol o fewn darparwyr unigol, ond fel patrymau ehangach ar draws y system. Mae'n amlygu, lle mae arweinwyr yn adnabod eu darpariaeth yn dda, yn defnyddio tystiolaeth yn ddeallus ac yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cyd-fynd â blaenoriaethau gwella, bod deilliannau'n gryfach. I'r gwrthwyneb, lle mae hunanwerthuso'n arwynebol neu'n canolbwyntio gormod ar gydymffurfiaeth, mae gwelliant yn arafach ac yn llai cadarn.

Dywedodd:

> *Mae'r adroddiad blynyddol eleni yn dangos system sydd â chryfderau gwirioneddol, ond hefyd un lle mae gwendid parhaus mewn addysgu, presenoldeb a*

*hunanwerthuso yn parhau i ddal gormod o ddysgwyr yn ôl. Ein gwaith yw y bydd yr adroddiad yn cefnogi myfyrio gonest ar draws y system ac yn helpu pawb sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant i ganolbwyntio'n glir ar yr hyn sydd angen ei wella os yw pob dysgwr yng Nghymru am ffynnu.*

**Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol PAEF ym mis Chwefror 2026, yn unol â'r dyddiad targed yn ein Cynllun Blynyddol 2025-2026.**

**Cafodd yr holl argymhellion ar gyfer gwella mewn adroddiadau thematig eu derbyn ar gyfer eu gweithredu / rhoi sylwadau arnynt gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod adrodd.**



Yn ystod 2025-2026, cyhoeddom ddeuddeng adroddiad thematig ar ystod o bynciau i ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys cyfanswm o 157 o argymhellion, 51 ohonynt ar gyfer Llywodraeth Cymru. Cafodd yr holl argymhellion ar gyfer gwella eu derbyn neu rhoddwyd sylwadau arnynt gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod adrodd.

### Adroddiadau thematig a gyhoeddwyd yn 2025-2026

| Enw | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol mewn colegau AB | Mai 2025 |
| Hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd | Mai 2025 |
| Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd – diweddariad ar gynnydd | Mai 2025 |
| Cwricwlwm i Gymru: MDaPh Mathemateg a Rhifedd | Gorffennaf 2025 |
| Ieithoedd rhyngwladol | Gorffennaf 2025 |
| Twf Swyddi Cymru+ | Gorffennaf 2025 |
| Cwricwlwm i Gymru: Addysgu yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru | Medi 2025 |
| Medrau sylfaenol mewn dysgu oedolion yn y gymuned | Medi 2025 |
| Adolygiad o'r cwricwlwm Medrau Byw yn Annibynnol | Medi 2025 |
| Deallusrwydd Artiffisial (AI) cynhyrchiol mewn ysgolion ac UCDau | Hydref 2025 |

| | |
|---|---|
| Cymorth ALlau ar gyfer cyllidebau ysgolion | Mawrth 2026 |
| Trefniadau ar gyfer gwasanaethau tiwtora unigol i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, a'u hansawdd | Mawrth 2026 |

Ar draws 2025-2026, cyhoeddom gyfanswm o 32 o astudiaethau achos hefyd, wedi’u seilio ar arfer effeithiol a nodwyd yn ystod arolygiadau a’r rhai y gwahoddwyd darparwyr i’w cyflwyno. Hefyd, lansiom y defnydd o gameos byrrach o arfer ddiddorol a nodwyd, i’w cynnwys mewn adroddiadau arolygu.

Yn ystod y flwyddyn, mynychodd AEF wrandawiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PPIA):

- 11 Mawrth 2026: Adroddiad Blynyddol PAEF

Mynychodd uwch reolwyr ac AEF wrandawiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, hefyd:

- 29 Hydref 2025: Ymchwiliad i garchardai, gwasanaethau prawf ac adsefydlu yng Nghymru

### Cwricwlwm i Gymru

Rydym wedi parhau i gefnogi cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, gan gynnal cyfarfodydd rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru i gynghori ar faterion cwricwlaidd, fel dilyniant a dysgu proffesiynol. Rydym wedi cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i gynghori ar flaenoriaethau yn ymwneud â chwricwlwm, addysgu ac asesu.

### Deallusrwydd Artiffisial

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol eleni o ran datblygu ein dealltwriaeth a’n defnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI), yn ein gwaith ein hunain ac ar draws y system ehangach. Mae ein hadroddiadau thematig ar AI ym myd addysg (Oes Newydd: Sut mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn Cefnogi Addysgu a Dysgu - Estyn ac Archwilio’r Potensial: Deallusrwydd Artiffisial mewn Addysg Bellach - Estyn), ynghyd â gweithdai cysylltiedig, wedi helpu i sefydlu safbwynt clir: nid yw AI yn ddiben ynddo’i hun, ond yn offeryn i gefnogi addysgu, dysgu ac arolygu effeithiol. Adlewyrchwyd y neges hon yn ein gwaith cyhoeddedig ac ymgysylltiad ag ymarferwyr, lle bu’r pwyslais ar ddefnyddio AI i gryfhau meddwl a barn broffesiynol, yn hytrach na’u disodli.

Yn ystod y flwyddyn, parhaom i wneud cynnydd â’n prosiectau peilot. Trwy arbrofi wedi’i reoli’n ofalus a dysgu proffesiynol parhaus, mae AI wedi cefnogi tasgau fel dadansoddi

sympiau mawr o dystiolaeth, nodi themâu sy'n dod i'r amlwg a gwella eglurder a hygyrchedd ein hadroddiadau. Mae cydweithwyr hefyd wedi dechrau defnyddio AI i brofi syniadau, mireinio allbynnau a pharatoi ar gyfer cyflwyniadau allanol. Er bod y dulliau hyn wedi gwella effeithlonrwydd, rydym wedi cadw ffocws cryf ar oruchwyliaeth broffesiynol, gan gydnabod risgiau fel anghywirdeb, tuedd a gorddibyniaeth. Bydd penderfyniad ynghylch cyflwyno'r prosiectau peilot hyn yn cael ei wneud ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Tynnwyd sylw hefyd at ein gwaith â phartneriaid rhyngwladol i ddatblygu dulliau o ddefnyddio AI i gefnogi arolygu mewn podlediad diweddar a recordiwyd yn rhan o gynhadledd a gynhaliwyd gennym ym Mae Caerdydd.

Rydym hefyd wedi cryfhau ein gwaith rhyngwladol ac arwain systemau. Mae ymgysylltu â phartneriaid, gan gynnwys trwy ein gwaith gyda Phrifysgol Tallinn, wedi atgyfnerthu pwysigrwydd ystyried AI yn her o ran arweinyddiaeth, cwricwlwm a'r gweithlu, yn hytrach nag yn un dechnegol yn unig. Mae hyn wedi helpu i lunio ein meddylfryd am rôl AI mewn addysg yng Nghymru, gan gynnwys ei botensial i gefnogi addysgu a dysgu effeithiol.

Erbyn hyn, mae ein hymagwedd at AI yn symud o archwilio tuag at weithredu ac ymwreiddio. Gwnaed y symudiad hwn yn bosibl oherwydd ein buddsoddiad mewn rheiliau gwarchod fel dysgu proffesiynol, diogelu data ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a llywodraethu a rheoli risg priodol. Fodd bynnag, mae arfer ar draws y system yn anghyson o hyd ac yn aml yn cael ei llywio gan flaengaredd unigol, yn hytrach nag arweinyddiaeth gydlynol. Er mwyn ymateb i hyn, rydym yn parhau i ddyfnhau ein dealltwriaeth fewnol, archwilio sut rydym yn edrych ar AI yn rhan o weithgarwch arolygu a chydweithio â phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Dysgu, i ddatblygu dull mwy cydlynol a chynaliadwy o ymdrin ag AI mewn addysg yng Nghymru.

## Rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ADYTA) ar waith

Mae gweithredu ac ymwreiddio Deddf ADYTA yn parhau i fod yn ffocws allweddol ar draws sectorau.

Rydym yn parhau i fod yn gyfranwyr gweithredol i weithgor ADY/CCAC, lle'r ydym yn rhoi cyngor, yn adrodd ar gyflwr presennol gweithredu Deddf ADYTA ac yn cynnig goruchwyliaeth strategol o'r diwygio.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynhyrchu podledliad cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg sy'n arddangos arfer ADY effeithiol ar draws ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed a gynhelir.

Mae ADY yn faes i'w ddatblygu mewn colegau addysg bellach (AB) o hyd. Er mwyn ymateb i hyn, rydym yn cyhoeddi arweiniad sector ar derminoleg, yn rhoi cyflwyniad cynlluniedig i gynrychiolwyr ADY Colegau Cymru ac yn cyhoeddi podlediad Estyn.

Yn ogystal, nododd ein hadolygiad thematig, 'Y Cwricwlwm Medrau Byw yn Annibynnol (MBA) mewn Addysg Bellach: Creu cwricwlwm yn seiliedig ar fedrau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn', gryfderau allweddol a meysydd i'w datblygu mewn darpariaeth colegau ar gyfer medrau byw'n annibynnol. Cyhoeddwyd fersiwn hygyrch "hawdd ei deall" o'r adroddiad, hefyd.

I gefnogi ein gwaith yn ymwneud ag ADY, rydym wedi diwygio a chyhoeddi arweiniad atodol ar gyfer ADY ac wedi darparu arweiniad clir i arolygwyr ar ein dull o arolygu dosbarthiadau adnoddau arbenigol awdurdodau lleol (LASC).

Rydym wedi parhau i ddatblygu a chryfhau ein canllaw briffio i arolygwyr. Mae'r canllaw hwn yn darparu cyfarwyddiadau clir a manwl i arolygwyr cofnodol ac arolygwyr ADY ar sut i arolygu ac adrodd ar ddarpariaeth LASC mewn ysgolion. Bu adborth gan gydweithwyr am y canllaw briffio yn gadarnhaol.

### Ysgolion annibynnol

Rydym wedi arsylwi bod ychydig o ddisgyblion a oedd wedi mynychu ysgolion prif ffrwd annibynnol gynt bellach yn cael cynlluniau datblygu unigol (CDUau). O ganlyniad, ni all yr ysgolion hyn dderbyn disgyblion tebyg oni bai bod eu cofrestriad yn adlewyrchu anghenion y disgyblion yn benodol.

Ar ran Llywodraeth Cymru, rydym wedi rhoi cyngor ar addasrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdA) sy'n cael ei chynnig gan yr ysgolion hyn a, lle bo angen, wedi argymell newidiadau i'w cofrestriad. Fodd bynnag, gan nad yw ysgolion annibynnol o fewn cwmpas Deddf ADYTA ac mae eu cofrestriad yn parhau i fod wedi'i seilio ar ADY yn hytrach na DDdA, mae hyn yn achosi heriau parhaus.

### Gwrth-hiliaeth

Rydym yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn blaenoriaethau ein cynllun cydraddoldeb strategol. Eleni, cwblhaodd ein rhaglen arweinyddiaeth i leiafrifoedd ethnig ei thrydedd garfan, gan ymgorffori'r sector llywodraeth leol am y tro cyntaf, gyda chyn-gyfranogwyr yn crybwyll camau cadarnhaol ymlaen yn eu gyrfaoedd, gan gynnwys dyrchafiadau a chwblhau ein hyfforddiant arolygwyr cymheiriaid yn llwyddiannus. Cyflwynom gwestiynau demograffig yn rhan o'n holiaduron i ddysgwyr cyn arolygiad a fydd, dros gyfnod, yn caniatáu i ni ddadansoddi a oes unrhyw wahaniaethau o ran barn am eu profiadau gan wahanol grwpiau o ddysgwyr. Canolbwyntiodd ein hadroddiad blynyddol ar brofiadau dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (Cefnogi disgyblion o gymunedau

Sipsiwn, Roma a Theithwyr a fideo). Er gwaethaf gweithgarwch recriwtio targedig yn rhan o'n rownd recriwtio arolygwyr lleyg, methom ddenu set fwy amrywiol o ymgeiswyr, felly byddwn yn adolygu ein dull eto'r tro nesaf.

Er bod recriwtio diweddar wedi denu cronfa amrywiol o ymgeiswyr, nid yw hyn wedi'i adlewyrchu mewn deilliannau hyd yn hyn. Er mwyn ymateb i hyn, rydym yn cyflwyno dulliau adborth ymgeiswyr ac yn bwriadu cydweithio â sefydliadau cydraddoldeb i ddeall a mynd i'r afael â rhwystrau posibl yn ein prosesau recriwtio yn well.

### Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Rydym yn cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i gynnig adborth o arolygu a gweithgarwch arall. Mae hyn yn cynnwys awgrymiadau ymarferol i gefnogi arweinwyr, gan gynnwys cyflawni'r agweddau hyn mewn cynadleddau ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar gyfer penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd.

Fel y crybwyllwyd ynghynt, cydweithiom â QAA a darparwyr trydyddol i gasglu tystiolaeth am hunanwerthuso a gwelliant parhaus effeithiol ar draws darparwyr trydyddol, gan arwain at becyn cymorth a fydd yn cael ei gyhoeddi yn haf 2026.

### Lliniaru effaith tlodi

Mae lliniaru effeithiau tlodi ar ddysgu a chyrhaeddiad addysgol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru; felly, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar waith darparwyr i leihau effaith difreintedd. Er enghraifft, rydym wedi adolygu a diweddaru ein harweiniad atodol a'i gyhoeddi ar ein gwefan. Rydym hefyd wedi rhannu ein dulliau o arolygu sut mae darparwyr yn mynd i'r afael â hyn mewn cynhadledd Cymru gyfan o swyddogion y Grant Datblygu Disgyblion (GDD), yn ogystal â digwyddiad bord gron gyda Llywodraeth Cymru wrth drafod cyhoeddiad diweddar ar ddefnydd y GDD gan Brifysgol Bangor. Er mwyn pwysleisio ymhellach bwysigrwydd yr agwedd hon ar ein gwaith ac annog arfer sy'n mynd y tu hwnt i liniaru effaith faterol tlodi yn unig, cyflwynom sesiwn ar y pwnc hwn mewn hyfforddiant diweddaru allanol ar gyfer y sectorau ysgolion yn ystod haf 2025.

Yn ystod 2025-26, buom yn datblygu ymhellach ein strategaeth a'n cynllun gweithredu sefydliad cyfan ar gyfer ein gwaith i liniaru effaith tlodi, gan rannu ar draws uwch reolwyr ar gyfer datblygiad a chraffu pellach. Yn ystod haf 2026, byddwn yn cyflwyno'r cynllun gweithredu diweddaraf a'r datblygiadau arfaethedig.

Rydym wedi cyflwyno a darparu sesiwn hyfforddiant ar y pwnc hwn ym mhob wythnos dysgu proffesiynol i'n staff ein hunain yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Rydym hefyd wedi parhau i fyfyrio ar sut gall arolygu gefnogi ein hymgyrch i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles.

## Ein gwaith gyda Medr

Rydym wedi parhau i feithrin perthnasoedd cryf â Medr. Mae hyn wedi cynnwys cyrraedd adeg lle mae Medr wedi cytuno ar ein setliad cyllid cyntaf a sefydlu'r dulliau iddynt roi cyfeiriad i ni ynghylch sut maent am i ni gyflawni ein cyfrifoldebau i gefnogi eu blaenoriaethau. Rhoddom adborth iddynt i'w helpu i lunio eu fframwaith ansawdd cyhoeddedig cyntaf, a fydd yn helpu i lunio sut byddwn yn esblygu ein trefniadau arolygu yn y dyfodol.

Cydweithiom yn agos â Medr i roi adborth yn rhan o'r gwaith thematig perthnasol a wnaed eleni, gan gynnwys yr adroddiadau ar fedrau sylfaenol oedolion, AI mewn addysg bellach, rhaglenni medrau byw yn annibynnol ac ymddygiad mewn colegau AB. Sefydlom broses ar y cyd â Medr a Llywodraeth Cymru hefyd i nodi a chytuno ar adroddiadau thematig yn y dyfodol a fyddai'n bodloni eu hanghenion a'u blaenoriaethau strategol.

Darparodd Medr gyllid grant ychwanegol i ni gydweithio â QAA ar y pecyn cymorth hunanwerthuso a gwelliant parhaus, yn rhan o'r ymgyrch strategol tuag at sector addysg drydyddol mwy cydgysylltiedig yng Nghymru.

Roeddem wedi gallu cyfrannu'n uniongyrchol at waith Pwyllgor Ansawdd Medr, er enghraifft trwy gyflwyno papurau ar ein gwaith a gwaith posibl ar y cyd â QAA. Defnyddiom amser arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol a'n tystiolaeth o arolygiadau o ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed i ddatblygu trosolwg o ansawdd ar draws chweched dosbarthiadau, a drafodwyd gan y Pwyllgor Ansawdd.

Wrth i Medr barhau i ddatblygu agweddau ar eu gwaith, fel yr arolwg newydd i ddysgwyr neu'r cod ymgysylltu â dysgwyr, rydym wedi hwyluso trafodaethau ag arolygwyr er mwyn sicrhau bod tystiolaeth arolygu yn llywio'r datblygiadau.

### Ymatebion i ymgynghoriadau

Defnyddiom ein sail dystiolaeth helaeth hefyd i ymateb i 35 o ymgynghoriadau ar ystod eang o faterion addysgol yn ystod y flwyddyn ariannol, sef 22 ohonynt gan Lywodraeth Cymru, 5 gan Medr a 9 gan sefydliadau eraill. Roedd ymatebion ymgynghoriadau'n cynnwys:

- Canllawiau gwrthfwlio hawliau, parch, cydraddoldeb
- Recriwtio a chadw athrawon
- Gofynion cynllunio ar gyfer cymwysterau newydd Sgiliau Hanfodol Cymru
- Medr: ymgynghoriad ar system reoleiddio newydd

Mae tudalen ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru i'w gweld yma.

Gallwch weld ein holl ymatebion i ymgynghoriadau ar ein gwefan:

### Ymatebion i gynigion ad-drefnu ysgolion

| 2019-2020 | 2020-2021 | 2021-2022 | 2022-2023 | 2023-2024 | 2024-2025 | 2025-2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 33 | 30 | 32 | 11 | 31 | 34 | 43 |

Yn 2025-2026, ymatebom i 43 o gynigion ad-drefnu ysgolion, sydd ychydig yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol, ar wahân i ostyngiad yn 2022-2023. Yn y rhan fwyaf o achosion, daethom i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau cyfredol o leiaf o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Nodom lle'r oedd y cynigiwr wedi nodi sail resymegol glir ar gyfer y cynnig ac wedi rhoi rhesymau pam roedd y newid yn angenrheidiol.

### Cyngor a chymorth i grwpiau llywio cenedlaethol allweddol

Rydym yn cefnogi ystod o weithgorau yn genedlaethol ac ar sail ad hoc, yn ôl yr angen. Yn benodol, rydym wedi sefydlu cyfarfodydd rheolaidd gyda Medr ar ystod o lefelau i drafod materion o ddiddordeb cyffredin. Yn ogystal, parhaom i gyfrannu at ystod o grwpiau llywio cenedlaethol yn ystod y flwyddyn, y gellir eu dadansoddi fel a ganlyn:

Grwpiau dal i fyny / cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid: 61
Pwyllgorau: 18
Gweithgorau wedi'u cyfansoddi'n ffurfiol: 54
Grwpiau prosiect: 12
Grwpiau cyfeirio: 12
Ceisiadau i gymryd rhan mewn ymchwil: 13

Mae enghreifftiau o'r grwpiau a fynychwyd eleni fel a ganlyn:

- Bwrdd y rhaglen a’r grŵp cydlyniant ar gyfer Rhaglen y Bartneriaeth Gwella Ysgolion
- Fel sylwedydd ar Bwyllgor Ansawdd Medr
- Gweithgor y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)
- Gweithgor y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh)
- Tasglu Gweinidogol ar gyfer presenoldeb
- Grŵp Rhanddeiliaid Cymwysterau Cymru

## Amcan Strategol 3: Meithrin gallu ar gyfer gwella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Mae gwybodaeth a gesglir o waith arolygu ac ymgysylltu a gwaith arolygon thematig yn ein helpu i chwarae rôl allweddol mewn meithrin gallu i wella ar draws y system addysg. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ymgynghoriadau ac arolygon, cynadleddau, digwyddiadau rhanddeiliaid, digwyddiadau hyfforddiant a chyhoeddi adnoddau gwella ar ein gwefan. Mae ein hadnoddau gwella yn cynnwys: adroddiad blynyddol PAEF, adroddiadau thematig dylanwadol, astudiaethau achos o arfer effeithiol ac ystod eang o asedau amlgyfrwng sydd â'r nod o gefnogi ymarferwyr yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r rhain yn cynnwys crynodebau fideo, fideos o gwestiynau cyffredin a'n sianel podlediadau.

Mae gweithwyr addysg proffesiynol a rhanddeiliaid eraill yn gweld argymhellion ein hadroddiadau thematig, ein harweiniad a'n hastudiaethau achos o arfer effeithiol drwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu. Rydym yn mynd ati i hyrwyddo ein hadnoddau trwy gyfryngau cymdeithasol a'n gwefan gan ddefnyddio graffeg a fideos i hybu ymgysylltu a denu sylw penaethiaid ac athrawon prysur a phobl eraill sy'n gweithio ym maes addysg a hyfforddiant, neu'n ei gefnogi.

Rydym yn parhau i rannu diweddariadau gyda'n cymuned rhieni a gofalwyr, gan gynnwys crynodebau o'n newidiadau i'r fframwaith newydd, ein gwefan newydd a cheisio adborth ar adroddiadau ymweliadau interim.

Rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r ystod o adnoddau sydd ar gael ar wefan Estyn ac annog rhanddeiliaid i ymweliad â'r wefan a manteisio ar y cyfoeth hwn o wybodaeth i gefnogi eu gwaith. Trwy wrando ar adborth gan ddefnyddwyr, rydym yn parhau i ddatblygu ymarferoldeb y wefan i wella profiad y defnyddiwr a chyflwyno ein gwybodaeth mewn ffordd hygyrch a difyr.

Caiff adnoddau eu rhestru a'u cyflwyno mewn golwg chwilio hawdd a chaiff cynnwys fideo a chwestiynau cyffredin eu datblygu i gyflwyno gwybodaeth mewn fformat mwy diddorol. Rydym wedi cyflwyno astudiaethau achos ar ffurf fideos i rannu arfer effeithiol a byddwn yn adeiladu ar yr arlwy hwn, gan annog darparwyr i rannu darnau o ffilm o waith llwyddiannus a amlygir mewn arolygiadau.

Mae ein gwaith yn ymwneud ag **adroddiad blynyddol PAEF** yn parhau ar y cyd â'n hymdrech i sicrhau bod ein gwaith yn hygyrch ac yn ddefnyddiol i randdeiliaid. Yn ogystal â chyflwyno'r wybodaeth mewn fformat ar-lein difyr, cipiom arfer orau trwy fideos o astudiaethau achos a rhannu canfyddiadau'r adroddiad mewn digwyddiad lansio i randdeiliaid, a oedd yn cynnwys panel holi ac ateb darparwyr.

Parhaom â'n cyfres podlediadau, gan ddod ag ystod eang o ddarparwyr ynghyd i drafod pynciau sy'n cyd-fynd â themâu allweddol yn yr adroddiad.

Rydym yn parhau i hybu'r ymgyrch Barod yn Barod, gan ganolbwyntio ar ddarparwyr ôl-16 yn ystod tymor yr haf, i gyfleu disgwyliadau arolygu i'r gynulleidfa hon – gan adeiladu ar ein hymgyrch a oedd wedi'i hanelu at ysgolion ac UCDau a lansiwyd yn gynharach yn y flwyddyn.

Yn 2025-2026, cynhaliom raglen lawn o ddigwyddiadau ar-lein a wyneb-yn-wyneb.

Cynhaliom 80 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys 28 o ddigwyddiadau i randdeiliaid a 34 o ddigwyddiadau hyfforddiant. Cynhaliwyd 19 o ddigwyddiadau i randdeiliaid wyneb-yn-wyneb a 9 ohonynt ar-lein. O'r digwyddiadau hyfforddiant a gynhaliwyd ar gyfer arolygwyr, roedd 26 ohonynt wyneb-yn-wyneb ac 8 ohonynt naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar-lein.

Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth a gawn gan gynrychiolwyr ac yn ei ddefnyddio i wella'n barhaus. Aethom ati i goladu adborth o'n digwyddiadau hyfforddi a chynadleddau arfer orau a chawsom lawer o adborth cadarnhaol.

## Arolygwyr cymheiriaid

Parhaodd arolygwyr cymheiriaid (ymarferwyr proffesiynol sydd â rôl arwain mewn ysgol neu ddarparwr ac sydd â phrofiad addysgu neu hyfforddi sylweddol yn y sector perthnasol) yn rhan annatod o'n prosesau arolygu. Mae gennym tua 1,236 o arolygwyr cymheiriaid ar ein rhestrau.

Rydym yn recriwtio a hyfforddi arolygwyr cymheiriaid ar gyfer pob sector ac eithrio'r sector meithrin nas cynhelir. Caiff arolygwyr cymheiriaid yn y sector a gynhelir eu defnyddio i gynnal arolygiadau craidd a thematig. Defnyddiwyd arolygwyr cymheiriaid yn y sector annibynnol i gynnal ymweliadau monitro mewn ychydig o'n darparwyr. Rydym yn adolygu ein cronfa o arolygwyr bob blwyddyn ac yn darparu hyfforddiant, fel y bo'n briodol.

Defnyddiom arolygwyr cymheiriaid mewn 306 o arolygiadau trwy gydol y flwyddyn adrodd hon.

Er mwyn paratoi'r ffordd ar gyfer arolygwyr cymheiriaid yn y dyfodol, recriwtiom drydedd garfan o'n rhaglen datblygu arweinwyr ar gyfer ymarferwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig i godi eu hymwybyddiaeth o'n gwaith a chynorthwyo i ddatblygu eu harweinyddiaeth wrth iddynt symud ymlaen yn eu gyrfaoedd. Cwblhaodd wyth o gyfranogwyr y rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol am y tro cyntaf, a pharhau i gynnwys addysg bellach ac ysgolion cynradd. Mae'r rhaglen yn parhau i gael effaith, gyda thua hanner y rhai sy'n cymryd rhan yn cael dyrchafiad yn ystod y rhaglen. Bydd rhai ohonynt yn symud ymlaen i'n rhaglen hyfforddiant lawn ar gyfer arolygwyr cymheiriaid ac yn llwyddo i ennill statws arolygydd cymheiriaid, gan helpu i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu. Mae nifer y ceisiadau cymwys wedi cynyddu'n sylweddol, gyda phum ymgeisydd llwyddiannus wedi'u gohirio i garfan 4 y

rhaglen a fydd yn cael ei chynnal yn ystod 2026-2027. Byddwn yn targedu sectorau penodol i lenwi'r 3 lle sy'n weddill.

### Arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol

Mae ein harolygwyr cyswllt awdurdodau lleol (ACALlau) wedi parhau i ddarparu cysylltiad gwerthfawr rhwng Estyn ac awdurdodau lleol ledled Cymru, gan rannu gwybodaeth a chasglu gwybodaeth a dealltwriaeth o waith awdurdodau lleol ar draws nifer o sectorau addysg. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae awdurdodau lleol yn canmol y cysylltiad hwn ac yn gwerthfawrogi'r trafodaethau agored am ystod eang o faterion y mae ACALlau yn eu cael â nhw ar lefelau amrywiol yn yr awdurdod lleol. Rydym yn darparu arweiniad, dysgu proffesiynol a sesiynau torfol bob tymor i'n harolygwyr cyswllt i'w galluogi i ymgymryd â'r rôl yn effeithiol.

### Arolygwyr cyswllt ôl-16

Parhaom i ymgysylltu â darparwyr ôl-16 trwy ymweliadau arolygwyr cyswllt eleni. Roedd ein meysydd ffocws ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys deallusrwydd artiffisial (AI) mewn addysg bellach, ac iechyd a gofal cymdeithasol a chyfraddau cwblhau amserol mewn prentisiaethau. Cyhoeddom adroddiad mewnwelediadau Archwilio'r Potensial: Deallusrwydd Artiffisial mewn Addysg Bellach – Estyn ym mis Mawrth 2026. Cydweithiom â Medr a'r sector i archwilio newid sut rydym yn mynd ati i ymgysylltu â'n harolygwyr cyswllt yn ystod y flwyddyn.

# Sut y cyflawnwn ein gwaith

## Adeiladu sefydliad gwell a byw'n unol â'n gwerthoedd

### Lle gwych i weithio

Trwy gydol 2025-2026, rydym wedi parhau â'n gwaith i sicrhau bod Estyn yn lle gwych i weithio ac wedi adeiladu ar gynnydd y llynedd.

**Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2025:**

**Sgôr ymgysylltiad staff: 73%**

**(Sgôr meincnodi y Gwasanaeth Sifil 65%)**

**Roedd ein Sgôr Ymgysylltiad uwchlaw meincnod perfformwyr uchel y Gwasanaeth Sifil**



Roedd canlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn dangos bod Estyn, unwaith eto, yn y chwartel uchaf o ran ymgysylltiad cyflogeion ar draws y Gwasanaeth Sifil. Roedd saith allan o naw o'r themâu yn cyrraedd meincnod perfformiad uchel y Gwasanaeth Sifil neu'n uwch.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi:

- datblygu cynllun gweithredu, wedi'i seilio ar adborth o'r arolwg pobl, sy'n cynnwys nodau tymor byr, tymor canolig a thymor hir
- cwblhau adolygiad o gwmpas y grŵp ymgysylltu â chyflogeion, gan barhau i weithio â'r grŵp ar faterion yn ymwneud ag ymgysylltu â chyflogeion
- parhau i adolygu a diweddaru polisïau Pobl yn unol ag arfer orau a newidiadau i ddeddfwriaeth cyflogaeth
- recriwtio i sawl rôl newydd yn y Gwasanaethau Canolog i helpu o ran capasiti a gallu
- parhau i werthuso anghenion staffio ar draws y sefydliad.

**Y trosiant ar gyfer y flwyddyn oedd 10% (o gymharu â 7.1% yn 2024-2025)**

### Perthynas ag undebau

Yn ystod 2025-2026, cynhaliom ein perthynas gynhyrchiol a phroffesiynol â'r ddau undeb, sef Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) a FDA. Rydym yn trafod deilliannau'r Arolwg Pobl blynyddol â'n gilydd, ynghyd â sut byddwn yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

### Pobl fedrus

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i sicrhau bod ein rhaglen dysgu a datblygiad yn cynorthwyo staff i ddatblygu ymhellach y medrau sy’n helpu i danategu ein gwerthoedd a chynnal ein lefelau uchel o ymgysylltiad.

Yn ystod 2025-2026, fe wnaethom:

- ddarparu cyfnod ymsefydlu cynhwysfawr i newydd-ddyfodiaid
- darparu hyfforddiant recriwtio i’r rhai o’r gwasanaethau canolog sy’n rhan o baneli recriwtio
- parhau i gefnogi staff i ddatblygu medrau Cymraeg, gan gynnwys cyrsiau preswyl a gwersi wythnosol
- cefnogi arolygwyr a staff y Gwasanaethau Canolog i fynychu seminarau a chynadleddau proffesiynol
- parhau i gyflwyno’r hyfforddiant Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb i’r rhai sy’n llunio polisïau yn Estyn er mwyn sicrhau nad yw ein polisïau, ein harferion na’n penderfyniadau’n gwahaniaethu a’u bod yn hybu tegwch, cynhwysiant a chydraddoldeb i bawb yn weithredol
- cynnal adolygiad o’n hwythnosau Dysgu a Datblygiad Proffesiynol ar gyfer AEF er mwyn sicrhau bod ein dull yn adlewyrchu anghenion cydweithwyr
- darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i gydweithwyr yn y Gwasanaethau Canolog
- darparu hyfforddiant diogelu manylach i’r unigolion hynny sy’n arwain ar ddiogelu
- peilota mentora gwrthdro i gydweithwyr yn y Gwasanaethau Canolog i fentora cydweithwyr uwch.

## Cydraddoldeb a lles cyflogeion

Yn ystod 2025-2026, parhaom i godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn cynnwys y modd yr ystyriwn gydraddoldeb pan fyddwn yn arolygu, a sut byddwn yn sicrhau bod ein staff ein hunain a’r rhai rydym yn contractio â nhw yn cael cyfle cyfartal ac yn cael eu trin yn gyfartal. Diweddarom ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sydd bellach yn adlewyrchu ein bwriadau hyd at 2028: [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028]. Mae’r ddogfen hon yn amlinellu sut byddwn yn gweithio i gyflawni ein tri amcan cydraddoldeb:

- Byddwn yn gweithio i gynyddu amrywiaeth ein staff, ein harolygwyr allanol a lleisiau’r rhanddeiliaid sy’n cyfoethogi ein gwaith.
- Byddwn yn hybu cyfle cyfartal ac yn sicrhau triniaeth deg i’n gweithlu cyfan, staff ac arolygwyr dan gontract, gan fynd i’r afael â bwlio a gwahaniaethu pa bryd bynnag y bydd yn digwydd.
- Byddwn yn gwerthuso materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth gynnal arolygiadau ac yn ein gwaith thematig, gan rannu arfer dda a gwneud argymhellion ar gyfer gwella, yn ôl yr angen.

Mae lles a diogelwch ein staff yn flaenllaw yng nghynlluniau ein sefydliad. Mae'r grŵp lles ac ymgysylltu â chyflogeion yn hybu mentrau a gweithgareddau lles yn rheolaidd.

Rydym wedi datblygu strategaeth lles yn 2025-26 sy'n ein cefnogi ymhellach i greu diwylliant lles sy'n cael ei hyrwyddo ar bob lefel, sy'n canolbwyntio ar atal ac sy'n gwella ein safonau a'n harferion.

Rydym hefyd yn sicrhau bod yr holl staff:

- yn cael meddalwedd, gliniaduron ac offer TG arall i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol o gartref
- yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth sy'n cael eu cynnig drwy'r Rhaglen Cymorth i Gyflogeion
- yn cael ystod o offer diogelwch sy'n ofynnol i gyflawni eu hymweliadau gweithgarwch arolygu yn ddiogel
- yn cael y cyfle i adolygu'u hasesiad DSE, yn dilyn newidiadau i'w trefn weithio wreiddiol gartref/yn y man gweithio
- yn cael cyfle i gael prawf iechyd blynyddol
- yn cael eu hannog i ddefnyddio amser lles

### Safonau'r Gymraeg

Yn 2024-2025, cyhoeddwyd ein 13eg Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg yn Estyn 2024-2025, a oedd yn cynnwys crynodeb o gynnydd a blaenoriaethau ar gyfer 2024-2025. Amlygodd yr adroddiad y modd y parhaom i gydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol a osodir arnom fel sefydliad o dan Safonau'r Gymraeg.

Parhaom i ymgysylltu ag ystod eang o ymgynghoriadau cyhoeddus ac roedd ein hadroddiadau arolygu a'n hadroddiadau thematig yn ystyried y defnydd o'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r cyd-destunau addysgol hynny a chaiff argymhellion i ddarparwyr a lleoliadau eu gwneud yn aml yn yr adroddiadau hynny.

- Y llynedd, nodom yr angen i ymateb yn fwy rhagweithiol i frwdfrydedd staff i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Eleni, rydym wedi cefnogi staff i ddatblygu eu medrau Cymraeg trwy:
- gynnig y gallu i fanteisio ar gyfleoedd preswyl i ddysgu Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn
- cyflwyno cwrs lefel gloywi i staff fireinio eu medrau Cymraeg proffesiynol
- cynorthwyo staff i fanteisio ar ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn eu hamser eu hunain
- cyflwyno rhaglen fentora i gefnogi staff i ymarfer eu medrau iaith a magu hyder.

**Bodlonwyd gofynion Safonau'r Gymraeg**

### Sylwadau a chwynion

Yn ystod 2025-2026, cynyddodd nifer y cwynion a gawsom am ein gweithgarwch arolygu o gymharu â'r rhai yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cafwyd 8 cwyn cam 2 yn ystod y cyfnod.

| Cwyn | Dyddiad | Canlyniad |
|---|---|---|
| Ymddygiad tîm arolygu uwchradd a thuedd mewn perthynas â'r ysgol | Mehefin 2025 | Ni chadarnhawyd |
| Ymddygiad arolygydd tîm cynradd | Hydref 2025 | Cadarnhawyd yn rhannol |
| Ymddygiad tîm arolygu cynradd | Tachwedd 2025 | Cadarnhawyd yn rhannol |
| Ymddygiad tîm arolygu uwchradd | Tachwedd 2025 | Cadarnhawyd yn rhannol |
| Ymddygiad tîm arolygu cynradd | Tachwedd 2025 | Cadarnhawyd yn rhannol |
| Ymddygiad tîm arolygu uwchradd a chymhwyso prosesau arolygu | Ionawr 2026 | Tynnwyd y gŵyn yn ôl |
| Ymddygiad arolygydd arweiniol cynradd a thegwch y broses arolygu | Mawrth 2026 | Yn mynd rhagddi |
| Ymddygiad tîm arolygu ôl-16 | Mawrth 2026 | Cadarnhawyd yn rhannol |

Lle cadarnhawyd agweddau ar y cwynion, lluniwyd cynllun gweithredu er mwyn gallu mynd i'r afael â'r materion cyn gynted â phosibl, naill ai drwy hyfforddiant neu drwy addasu ein systemau a'n prosesau.

Er y cwblhawyd yr ymchwiliadau i'r cwynion ac y darparwyd ymatebion cyn pen terfynau amser estynedig cytûn, mae pob un o'r darparwyr wedi mynegi anfodlonrwydd â phrosesau Estyn a chydnabuom yr angen i sicrhau y caiff ein prosesau eu tynhau, o ran paratoi nodiadau cyfarfodydd a gwirio'r ymatebion i'r adroddiad terfynol. Rydym wedi ymateb i gais gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Rydym yn ymdrechu i wella ein prosesau yn barhaus, gan ddefnyddio'r profiad o bob ymchwiliad i gŵyn i fireinio ein harweiniad mewnol. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliom ymgynghoriad mewnol ar ein trefn ac arweiniad rheoli cwynion. O ganlyniad, diweddarwyd y dogfennau a byddwn yn ymgymryd ag unrhyw ymchwiliadau yn y dyfodol yn unol â'n gweithdrefnau diwygiedig.

Yn rhan o'n gwaith parhaus i gryfhau ein prosesau cwyno, arbrofom â phanel adolygu cwynion allanol fel is-grŵp o ARAC, er mwyn ymateb i adborth ynghylch y diffyg allanoldeb canfyddedig yn ein trefniadau. Adolygydd y panel sampl o gwynion a oedd wedi'u cau, gan gynnwys yr amserlenni ategol, llythyrau canlyniadau ac adroddiadau arolygu cysylltiedig. Nododd y drafodaeth ddysgu defnyddiol i helpu i fireinio ein polisi ac arweiniad ar gwynion, gan gynnwys mynd i'r afael â phryderon diogelu, cysylltiadau â sicrhau ansawdd arolygiadau, eglurder pan fydd cwynion lluosog yn ymwneud â'r un gweithgarwch arolygu, a hyfforddiant ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol. Ar ôl y peilot, cytunom y dylai'r panel barhau i gyfarfod yn flynyddol fel is-grŵp ARAC, ac y dylai ei ganfyddiadau fwydo ein hadroddiad blynyddol ar gwynion a gwella'r broses yn barhaus.

Cafwyd cyfanswm o 16 o gwynion anffurfiol cam 1 hefyd, yr oedd pob un ohonynt yn mynnu ymateb ar ffurf nodyn esboniadol am ein gweithdrefnau a'n penderfyniadau neu alwad ffôn i roi sicrwydd am ein systemau, yn ôl yr angen.

Cofnodom gyfanswm o 59 o ganmoliaethau ynglŷn â'n gwaith hefyd, er enghraifft o ran ymddygiad ein harolygwyr, ein cymorth mewn hyfforddiant neu wrth gymryd rhan mewn cynadleddau.

### Ceisiadau am wybodaeth

Eleni, cawsom gyfanswm o 35 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, y tynnwyd dau ohonynt yn ôl. Ymatebwyd i 34 o'r ceisiadau cyn pen 20 diwrnod gwaith. Aeth un cais y tu hwnt i'r terfyn amser statudol oherwydd mater gweinyddol (derbyn trwy'r ffolder sbam), yr aethpwyd i'r afael ag ef er ers hynny trwy brosesau cryfach. O ran deilliannau:

- Arweiniodd mwyafrif y ceisiadau at ddatgeliad llawn
- Roedd angen datgeliad rhannol ar gyfran ohonynt, gan adlewyrchu cymhwyso eithriadau yn briodol
- Ni chafodd nifer fach eu dal, eu tynnu'n ôl na'u gwrthod, yn gyson â gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth arferol

Mae manylion am geisiadau ac ymatebion o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan, a gellir eu gweld yma.

### Adrodd ar gynaliadwyedd a bioamrywiaeth

Rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd i nodi ffyrdd i wella ein gweithgareddau rheoli amgylcheddol ymhellach ac rydym yn amlinellu'r rhain yn ein hadroddiad amgylcheddol. Yn 2025-2026, gostyngodd ein hallyriadau CO2 i 121,523 kg CO2, sef gostyngiad o 8% o gymharu â'r flwyddyn gynt.

Mae ein sefydliad, ein llwyth gwaith a'n gweithrediadau yn parhau i gynyddu. Rhoddir rhagor o wybodaeth am ein gwariant cynyddol yn yr adran 'uchafbwyntiau perfformiad ariannol'. Mae ein prif effaith amgylcheddol yn parhau i ddeillio o allyriadau CO2 sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, yn bennaf o arolygwyr yn teithio i ddarparwyr addysg a hyfforddiant. Roedd trafnidiaeth yn cyfrif am 89% o'n hallyriadau yn 2025-2026.

Yn ystod 2025-2026, cynhaliom 385 o arolygiadau craidd ac ymgysylltu'n fwy rheolaidd ar draws y sector addysg. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau â thema yn y sector Cymraeg i Oedolion, ymweliadau estynedig yn y sectorau GALlL ac ôl-16, arolygiadau monitro yn y sector annibynnol, ymweliadau monitro â cholegau arbenigol annibynnol ac ymweliadau interim mewn ysgolion a gynhelir ac UCDau. Cynhaliom gryn dipyn o weithgarwch arolygu dilynol, gweithgarwch adroddiadau thematig, ynghyd â digwyddiadau a gweithgarwch hyfforddiant, hefyd.

Cyfanswm ein hallyriadau o drafnidiaeth oedd 107,617 kg CO2 yn 2025-2026, o gymharu â 115,604 kg CO2 yn 2024-2025. Daeth ein milltiredd busnes mewn ceir preifat a cheir wedi'u llogi i gyfanswm o 374,797 o filltiroedd yn ystod 2025-2026, o gymharu â 383,900 o filltiroedd yn ystod 2024-2025. Daeth ein milltiredd awyr i gyfanswm o 20,706 o filltiroedd a theithiau rheilffordd i 10,991 o filltiroedd yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Rydym yn parhau i gyflwyno rhai digwyddiadau i randdeiliaid a digwyddiadau hyfforddiant ar-lein, gan helpu i leihau allyriadau CO2. Yn 2025-2026, cynhaliom 28 o ddigwyddiadau i randdeiliaid a 34 o ddigwyddiadau hyfforddiant. O'r digwyddiadau i randdeiliaid, cynhaliwyd 19 ohonynt wyneb-yn-wyneb a 9 ohonynt ar-lein. O'r digwyddiadau hyfforddiant i arolygwyr, cynhaliwyd 26 ohonynt wyneb-yn-wyneb a chyflwynwyd 8 ohonynt naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar-lein.

Caiff taliad am ddefnydd nwy yn ein hadeilad ei ddosrannu gan y landlord rhwng y tenantiaid a'i gynnwys yn ein tâl gwasanaeth. Mae lleihau maint ein swyddfa wedi effeithio ar ein defnydd nwy dros gyfnod, ynghyd â staff y gwasanaethau canolog yn dilyn patrwm gweithio hybrid, erbyn hyn. Roedd defnydd nwy yn cyfrif am 4% o gyfanswm ein hallyriadau yn 2025-2026. Roedd allyriadau CO2 o ddefnydd nwy yn 4,882 kg CO2 yn 2025-2026, o gymharu â 5,612 kg CO2 yn 2024-2025.

O ran trydan, er 2023, cyflwynodd y landlord gontract trydan newydd ar gyfer yr adeilad cyfan. Caiff taliad ar gyfer defnydd trydan yn yr adeilad ei ddosrannu rhwng y tenantiaid a'i dalu'n uniongyrchol i'r landlord.

Erbyn hyn, mae defnydd trydan ein swyddfa yn cyfrannu at ein hallyriadau CO2, gan gyfrif am 7% o gyfanswm yr allyriadau. Ein hallyriadau cwmpas 2 ar gyfer trydan oedd 9,024 kg CO2 yn 2025-2026, o gymharu ag 11,344 kg CO2 yn 2024-2025.

Hefyd, dyma'n hwythfed flwyddyn o adrodd bod dim gwastraff wedi mynd i safleoedd tirlenwi.

Mae ein hadroddiad amgylcheddol 2025 wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r adroddiad yn cynnwys ein polisi amgylcheddol, sydd hefyd yn cael ei arddangos yn ein cyfleuster hyfforddi yn swyddfa. Yn unol â'r ddyletswydd bioamrywiaeth, mae'r adroddiad yn amlinellu sut byddwn yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac yn hybu gwydnwch ecosystemau. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ein cydymffurfiaeth â dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Mae Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn cydnabod rheolaeth amgylcheddol effeithiol. Ailachredwyd Estyn i lefel 3 y Safon ym mis Mawrth 2026.

Wrth i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial (AI) gynyddu, felly hefyd mae'r galw am seilwaith sy'n ddwys o ran ynni, a all gyfrannu at newid yn yr hinsawdd a disbyddu adnoddau.

Byddwn yn defnyddio AI yn ddoeth ac yn archwilio ffyrdd i leihau ei effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd yn rhan o'n dull o reoli'r amgylchedd yn effeithiol. Gallai hyn gynnwys ystyried defnyddio canolfannau data sy'n cael eu pweru gan ynni cynaliadwy. Byddwn hefyd yn ceisio dylanwadu ar ein partneriaid trwy annog cwmnïau AI i fod yn fwy tryloyw ynghylch effeithiau amgylcheddol AI.

Mae ein safbwynt ar AI wedi'i nodi ar ein gwefan Deallusrwydd Artiffisial – Estyn.

## Uchafbwyntiau perfformiad ariannol

Daeth ein gwariant ar gyfer 2025-2026 i gyfanswm o £17.159m, o gymharu ag alldro ailddatganedig o £16.623m yn 2024-2025, sef cynnydd o 3.2%.

Yn 2025-2026, cawsom gyfanswm o £565,000 (2024-2025 - £498,000) o incwm grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi sawl rhaglen waith, gan gynnwys:

| Llif Gwaith | Gwerth |
|---|---|
| Adolygiad: Gwasanaethau Lles Addysg | £70,000 |
| Adolygiad: Cymorth ALlau i ysgolion i reoli eu cyllidebau | £70,000 |
| Adolygiad: Trefniadau ar gyfer gwasanaethau tiwtora unigol ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol (AHY), a'u hansawdd | £70,000 |
| Adolygiad: Ieithoedd rhyngwladol | £75,000 |
| Adolygiad: AI cynhyrchiol mewn ysgolion (Blwyddyn 2) | £48,000 |
| Adolygiad: Effeithiolrwydd darpariaeth addysg ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fewn mewn gofal | £28,000 |
| Adolygiad: Astudiaeth gymharol o gwricwla AHO AGA (TAR / Tystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg / Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg) | £9,000 |
| Arolygiadau Gwaith Ieuenctid | £136,700 |
| Diogelu | £26,200 |
| Cyllid hunanwerthuso Medr | £32,000 |
| **Cyfanswm – Incwm grant LlC** | **£564,90** |

Cynyddodd costau staff ar gyfer gweithwyr parhaol am y cyfnod 5.1%, gan gynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwr uwch (cynnydd o 21%) a dyfarniad cyflog o 3.75%. Gostyngodd gwariant ar staff asiantaeth a secondeion £360,000 (35%). Mae manylion am ein polisi tâl a chyfraddau cyflog ar gael yn ein Datganiad Polisi Tâl 2025.


Yn ystod y flwyddyn, parhaom i fuddsoddi at y dyfodol trwy:

- gomisiynu ymchwil i amgyffredion rhanddeiliaid o Estyn; byddwn yn defnyddio'r data a'r mewnwelediadau o'r gwaith hwn i feincnodi ein heffaith ac arwain at welliannau
- datblygu ein cymhwysiad Ystafell Arolygu Rithwir ymhellach i ddarparu amgylchedd symlach, mwy effeithiol a mwy sefydlog i gydweithwyr weithio gydag ef
- parhau â'n trawsnewid digidol a'n buddsoddiad mewn deallusrwydd artiffisial, a fydd yn manteisio ar dechnolegau a systemau newydd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliad


Defnyddiom £173,000 o'r gyllideb cyllid cyfalaf o £250,000 a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru, y defnyddiwyd y rhan fwyaf ohono i amnewid gliniaduron diwedd oes ar gyfer staff ac uwchraddio'r seilwaith TG.

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol (SofFP) ar 31 Mawrth 2026 yn dangos rhwymedigaethau net o £1,524,000 (2024- 2025: £178,000). Mae'r cynnydd mewn rhwymedigaethau net yn bennaf oherwydd balansau arian parod is, yn unol â chyfarwyddeb Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2026 2027, byddwn yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni ein rhwymedigaethau yn unol â'r sail 'busnes gweithredol' a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn. Ni chafwyd unrhyw golledion na thaliadau arbennig yn 2025 2026 a gadawodd un aelod staff dan y cynllun ymadael yn gynnar.


Gwariant net 2023-2024,2024-2025 a 2025-2026 (miliynau)
Gwariant £mau
15.67
£ 16.62
17.16
2023-2024
2024- 2025
2025 2026

## Gwariant yn ôl Math 2025 2026





# Adran 2: Yr adroddiad atebolrwydd

# 2.1 Adroddiad llywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae ein **Grŵp Rheoli Strategol,** sy'n cynnwys aelodau gweithredol (PAEF a'r cyfarwyddwyr strategol), yn cefnogi ac yn cynorthwyo PAEF i arwain a rheoli Estyn yn gorfforaethol. Mae ein **Grŵp Gweithredol**, a fynychir gan ein cyfarwyddwyr cynorthwyol a phenaethiaid cangen, yn cefnogi PAEF wrth arwain a rheoli ein gwaith cynghori ar arolygu a pholisi, yn ogystal â chyflawni'n weithredol o ddydd i ddydd. Mae'r **Grŵp Arweinyddiaeth Arolygu** yn trafod materion yn ymwneud ag arolygu ac yn cael ei fynychu gan AEF, Cyfarwyddwyr Strategol a Chyfarwyddwyr Cynorthwyol.

Mae ein **Bwrdd Strategaeth (y Bwrdd),** sy'n cynnwys aelodau gweithredol ac aelodau anweithredol (cyfarwyddwyr anweithredol), yn pennu ac yn monitro ein hagenda strategol. Caiff y Bwrdd Strategaeth ei gadeirio gan PAEF ac mae ganddo ddau is-bwyllgor, sy'n cael eu cadeirio gan aelodau anweithredol; y **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** a'r **Pwyllgor Cyflogau.** Gellir gweld cofnod llawn o aelodau a phresenoldeb y Bwrdd Strategaeth / Pwyllgorau ar ein gwefan.

### Buddiannau arwyddocaol a ddelir gan aelodau

Caiff datganiadau o fuddiant eu gwneud gan yr holl gyflogeion parhaol, secondeion a staff dros dro yn unol â'n polisi rheoli gwrthdaro buddiannau posibl ac arweiniad a nodir yng Nghod y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan unrhyw aelod o'r Bwrdd swydd cyfarwyddwr nac unrhyw fuddiannau arwyddocaol eraill a allai wrthdaro â'u cyfrifoldeb rheoli.

### Digwyddiadau'n ymwneud â data personol

Rhoddwyd gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am un digwyddiad yn ymwneud â data personol yn ystod y flwyddyn; wrth ymateb i hynny, cawsom ein cynghori nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach. Mae ein Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth wedi monitro ac adolygu trefniadau llywodraethu gwybodaeth ar draws y sefydliad a darparu goruchwyliaeth o gydymffurfio â pholisïau a phrosesau sicrwydd yn ein polisïau rheoli gwybodaeth.

### Polisi talu

Yn 2025-2026, gweithiom i gydymffurfio â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, i dalu anfonebau diamheuol cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf. Datgenir y polisi hwn yn y Telerau ac Amodau ar gyfer Contractau Estyn. Talom 99% o anfonebau o fewn 30 diwrnod.

**Talwyd 99% o'r anfonebau diamheuol o fewn 30 diwrnod (yn erbyn targed o 100%)**



## Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

PAEF yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Estyn. Mae PAEF wedi paratoi'r datganiad o gyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF ac â'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu a amlinellwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth. Paratoir y cyfrifon ar sail gyfrifyddu croniadau ac maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Estyn ar ddiwedd y flwyddyn a'i ddatganiad o wariant net cynhwysfawr; datganiad o sefyllfa ariannol; llifoedd arian; a datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae PAEF wedi:

- cydymffurfio â'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF
- cydymffurfio â'r gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd neu a eglurwyd yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra arian Estyn ac am gadw cofnodion priodol, wedi'u hamlinellu gan Drysorlys EF.

Mae PAEF yn cadarnhau:

(a) hyd y gwyddai, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Estyn yn gwybod amdani

(b) bod y Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i bennu bod archwilwyr Estyn yn ymwybodol o'r wybodaeth honno

(c) bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy

(ch) ei fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol ar gyfer pennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy

**Owen Evans**
Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r
Swyddog Cyfrifyddu
Dyddiad: 30 Gorffennaf 2026

# Y datganiad llywodraethu

## Cyflwyniad

A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Estyn, gan ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd i mi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rwyf wedi cynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ein busnes. Mae gennym system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso cyflawni ein swyddogaethau yn effeithiol ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Caiff egwyddorion Corporate governance in central government departments: Code of Good Practice 2017 (Y Cod), eu hadlewyrchu yn ein trefniadau llywodraethu, yng nghyd-destun ein hamgylchiadau fel adran anweinidogol. Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol hwn yn amlinellu sut rydym yn cynnal llywodraethu da ac yn esbonio'r prif heriau sy'n ein hwynebu, a sut mae'r heriau hyn yn cael eu rheoli.

## Y fframwaith llywodraethu

Rwyf wedi sefydlu fframwaith llywodraethu sy'n disgrifio'r systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli ein sefydliad ac a ddefnyddiwn i fonitro cyflawni ein hamcanion strategol a'n hymgysylltiad â'n rhanddeiliaid. Trwy gydol 2025-2026, cynhaliom ein trefniadau llywodraethu llawn, a chafodd y rhan fwyaf o'n cyfarfodydd eu cynnal yn rhithwir. Mae'r diagram ar ddiwedd y datganiad hwn yn dangos yn gryno ystod a lefel y sicrwyddau sy'n sail i'n trefniadau llywodraethu. Mae ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan a chaiff ei adolygu'n flynyddol.

Amlinellir datganiad clir o ddiben a'n gweledigaeth ar ein gwefan ac yn ein Cynllun Blynyddol. Mae'r Cynllun Blynyddol yn amlinellu ein gweledigaeth gyffredinol ac yn nodi ein prif nodau ac amcanion. Mae gwybodaeth am ein perfformiad a chyflawniad yn erbyn y Cynllun Blynyddol wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan, hefyd. Roedd ein cynllun yn adlewyrchu ein gwaith i barhau â'n rhaglen newydd o arolygiadau, a ddechreuodd ym mis Medi 2024.

Caiff y gwaith goruchwylio ei arfer trwy'r Bwrdd Strategaeth a'i is-bwyllgorau (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cyflogau). Cefnogwyd aelodau trwy gydol y flwyddyn gyda mynediad i dechnolegau priodol, fel Microsoft Teams, i sicrhau y gellid cynnal busnes yn ddiogel ac yn effeithlon ar sail gweithio o bell. Parhaodd holl elfennau ein strwythur llywodraethu i weithio'n effeithiol.

Yn ystod 2025-2026, cyfarfu'r Bwrdd Strategaeth bedair gwaith a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) bedair gwaith; roedd pob un o'r aelodau yn bresennol mewn tri o bedwar cyfarfod y Bwrdd Strategaeth ac roedd pob un o'r aelodau yn bresennol mewn tri o'r pedwar cyfarfod ARAC; yn y ddau achos arall, nid oedd un aelod yn bresennol. Mae'r Bwrdd Strategaeth wedi cael cyngor allanol cadarn ar faterion strategol a rheoli risg fel

rhan o rôl y cyfarwyddwr anweithredol i herio a chefnogi ein gweithrediaeth. Roedd rhai o'r meysydd adolygu a thrafod allweddol yr aeth y Bwrdd Strategaeth i'r afael â nhw yn ystod 2025-2026 yn cynnwys:

- adolygu'r trefniadau ar gyfer y cylch arolygu newydd
- adolygu trefniadau Estyn a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth o ran ein perthynas â Medr, sydd newydd ei sefydlu
- rhoi adborth i lywio'r weithdrefn derfynol, yn dilyn ymgynghoriad allanol ar ein Polisi Adborth a Chwynion
- y gyllideb a dyrannu adnoddau
- adolygu diweddariadau i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Adroddiad Blynyddol PAEF
- canlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil

Daw pob cyfarfod i ben â hunanwerthusiad o effeithiolrwydd y cyfarfod; mae ein cyfarwyddwyr anweithredol wedi cadarnhau eu bod yn fodlon â'r trafodion ac ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno a'i thrafod mewn cyfarfodydd, eu bod yn cael mewnbwn priodol i'r agenda a chyfle digonol i godi unrhyw bryderon. Mae'r Bwrdd Strategaeth yn fodlon bod ein trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban yn effeithiol; ni chodwyd unrhyw achosion chwythu'r chwiban yn 2025-2026.

Rydym yn cydgysylltu â Llywodraeth Cymru ar faterion rheolaeth ariannol. Caiff atebolrwydd ei reoli trwy Gytundeb Swyddog Cyfrifyddu rhwng PAEF a Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol dynodedig Llywodraeth Cymru, sef Prif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae'r trefniant llywodraethu cyswllt hwn yn helpu i gynnal ein hannibyniaeth mewn materion addysg a hyfforddiant, er bod cysylltiadau agos â Grŵp Addysg Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi dull strategol a chydlynus ar faterion allweddol a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

## Archwilio ac effaith

Caiff adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) ei gyhoeddi ar ein gwefan; mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y gwaith allweddol a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn gwneud sylwadau ar yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd ac yr adroddwyd amdanynt i'r pwyllgor. Mae adroddiad y Cadeirydd ar gyfer 2025-2026 yn rhoi sicrwyddau ynghylch ansawdd y gwaith archwilio ac effeithiolrwydd y pwyllgor; mae'r pwyllgor yn fodlon bod ein trefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg yn briodol trwy gydol 2025-2026. Ar gyfer pob un o'r archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, cafodd Estyn sicrwydd llawn ac, mewn dau achos, nid oedd angen unrhyw argymhellion ar gyfer gweithredu.

Yn ogystal, mae'r pwyllgor yn parhau i gael diweddariadau yn ymwneud â'r camau gweithredu yn dilyn yr archwiliadau cynharach o barhad busnes a chynllunio'r gweithlu,

gyda phapurau i esbonio'r amserlen sy'n esblygu ar gyfer cyflawni'r datblygiadau i bob un o'r prosesau a'r cysylltiadau rhwng yr argymhellion amrywiol.

Ar hyd 2025-2026, darparwyd ein gwasanaeth archwilio mewnol gan TIAA. Cyflawnwyd y gwaith o bell ac rydym wedi parhau i gydweithio'n agos â staff archwilio i sicrhau nad yw hyn yn llesteirio effeithiolrwydd ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Cymeradwyodd ein ARAC y rhaglen archwilio ar gyfer 2025-2026, gan ddefnyddio dull yn seiliedig ar risg i sefydlu meysydd ymdriniaeth o fewn rhaglen archwilio dreigl o dair blynedd a gytunwyd gyda TIAA. Cafodd cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio ei fonitro ac, ar ddiwedd y flwyddyn, ystyriwyd adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol. Cynghorodd yr adroddiad hwn am y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn a rhoddodd farn gyffredinol ar yr amgylchedd rheolaeth fewnol i'w hystyried gan aelodau o'r ARAC. Llywiodd y canlyniad o'r ymdriniaeth archwilio mewnol farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd cyffredinol ein fframwaith rheolaeth fewnol; *'ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, mae gan Estyn brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith'*. O ganlyniad i waith a gwblhawyd gan ein harchwilwyr mewnol yn ystod 2025-2026, cafwyd adroddiadau a oedd yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Adolygwyd yr holl adroddiadau sicrwydd archwilio mewnol a'r prif faterion sy'n codi a drafodwyd gan yr ARAC, a oedd yn fodlon bod yr holl gamau rheoli wedi cael eu rhoi ar waith neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith.

### Tabl 1: Rhaglen archwilio mewnol 2025-2026

| Adroddiadau | Lefel sicrwydd | Nifer yr argymhellion (sgôr blaenoriaeth) |
|---|---|---|
| SAGE Intacct | Sylweddol | 6 (1 brys, 3 pwysig, 2 arferol) |
| Rheoli risg | Sylweddol | 1 (arferol) |
| Prosiect y wefan | Rhesymol | 3 (1 pwysig, 2 arferol) |
| Cymorth TG | Rhesymol | 4 (1 canolig, 1 risg isel, 2 gweithredol) |
| Rheolaethau ariannol allweddol | Sylweddol | 3 (1 isel, 2 gweithredol) |
| Effaith wythnosau dysgu proffesiynol (cynghorol) | Sylweddol | 4 (2 canolig, 2 gweithredol) |
| Cynllunio cydraddoldeb strategol | Sylweddol | Dim |

Cyfarfu ein Pwyllgor Cyflogau unwaith yn ystod 2025-2026. Ystyriodd y grŵp yr adolygiad o berfformiad ac amcanion PAEF a Chyfarwyddwyr Strategol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rhoddodd aelodau'r Pwyllgor gyngor i PAEF hefyd ynglŷn â lefelau tâl a lwfansau ar gyfer aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, rydym wedi sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Nodiadau Polisi Caffael Swyddfa'r Cabinet a llythyrau Cymru Annwyl Swyddog Cyfrifyddu (DAO). Rhoddodd ein Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Arolygu a Gwasanaethau Canolog sicrwydd i bob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a oedd yn adrodd ar yr uchod ac yn darparu sicrwydd ar feysydd perthnasol eraill, fel caffael, bodloni rhwymedigaethau treth, adborth a chwynion, ymatebion i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, cydymffurfio ag egwyddorion recriwtio'r gwasanaeth sifil a chydymffurfio â threfn adrodd Swyddfa'r Cabinet.

Rydym yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ond yn cynnal ein statws fel corff annibynnol. Felly, fel adran anweinidogol, nid ydym yn destun Cyfarwyddiadau gan Weinidogion.

Nid oedd gan unrhyw aelod o'r Bwrdd Strategaeth swydd cyfarwyddwr nac unrhyw fuddiannau arwyddocaol eraill a oedd yn gwrthdaro â'u cyfrifoldebau gwaith. Mae Cofrestr Buddiannau a Chofrestr Rhoddion a Lletygarwch yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl gyflogeion parhaol, secondeion a staff dros dro.

Cwmpaswyd y meysydd sicrwydd uchod yn y datganiad sicrwydd rheolaidd a gyflwynwyd ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ynghyd â diweddariadau ar dwyll, diogelwch gwybodaeth, olrhain yn erbyn dangosyddion perfformiad, a materion ariannol sy'n effeithio ar y cyfrifon blynyddol.

## Rheoli risg

Yn dilyn archwiliad yn 2022-2023, cyhoeddom bolisi rheoli risg diwygiedig ym mis Tachwedd 2023, a symleiddiodd ein dull o reoli risg. Cynhaliwyd archwiliad ymgynghorol yn 2023-2024 ar ffurf gweithdai rheoli risg, a oedd yn cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol. Cynhaliwyd archwiliad pellach yn 2024-2026 a rhoddwyd sicrwydd sylweddol, gan argymell un cam gweithredu arferol yn unig. Caiff y gofrestr risg strategol ddiwygiedig ei hadolygu'n rheolaidd gan ein Grŵp Rheoli Strategol (a'i hadolygu ymhellach gan y Bwrdd Strategaeth). Caiff y gofrestr risg gorfforaethol ei hadolygu gan y Grŵp Gweithredol / Grŵp Arwain Arolygiadau. Mae gan bob risg berchennog unigol. Mae perchenogion risg yn rhoi sicrwydd a thystiolaeth bod rheolaethau allweddol ar waith i reoli risgiau a'u bod yn gweithio'n effeithiol. Mae risgiau swyddogaethol y Gwasanaethau Canolog yn parhau i gael eu rheoli'n uniongyrchol ym mhob maes, gyda phob maes yn cael ei reoli gan fforymau llywodraethu sefydledig, gan gynnwys cyfarwyddiadau desg a gweithdrefnau gweithredol / cynllunio wrth gefn. Parhaom i sicrhau bod mesurau ategol ar waith i reoli risgiau posibl gweithio o bell.

Roedd datganiadau sicrwydd blynyddol ar gyfer 2025-2026, a gwblhawyd gan bob un o'n cyfarwyddwyr, yn rhoi cadarnhad nad oedd unrhyw bryderon mawr a bod camau wedi'u cymryd lle nodwyd mân faterion yn ymwneud â rheolaeth. Caiff digwyddiadau diogelwch gwybodaeth ac achosion fu bron â digwydd eu cofnodi a'u hadrodd i'n Grŵp Rheoli

Gwybodaeth a Data (IDGG) a'n Grŵp Gweithredol (OG). Nid adroddwyd ar unrhyw achosion o golli data personol yn ystod 2025-2026. Hefyd, lle bo'n briodol, ceisiom a chawsom sicrwyddau allanol, er enghraifft gan Lywodraeth Cymru o ran y gwasanaethau cyflogres ac adnoddau dynol y mae'n eu darparu i ni o dan gytundeb lefel gwasanaeth ffurfiol.


### Materion llywodraethu arwyddocaol

Ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod y flwyddyn o ran ein fframwaith llywodraethu cyffredinol. Cwmpasodd yr adolygiadau archwilio mewnol feysydd allweddol o'n busnes, a braf yw adrodd na nodwyd bod unrhyw feysydd sylweddol o wendidau rheolaeth ac na chodwyd unrhyw argymhellion lefel uchel mewn adroddiadau sicrwydd. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rwyf wedi fy sicrhau gan y prosesau sydd ar waith a'r ymgysylltiad a'r ymrwymiad i'n gwerthoedd a chod y gwasanaeth sifil a ddangoswyd gan gydweithwyr. Maes o law, byddaf yn ceisio adolygu a mireinio ein trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau bod Estyn yn parhau i weithredu fel corff cyhoeddus rhagorol.



**Owen Evans**
Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r
Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 30 Gorffennaf 2026



Trefniadau fframwaith sicrwydd a chraffu Estyn
Craffwyr Allanol
Cwestiynau Gweinidogion LlC
Sesiynau Llawn Senedd CCC
Pwyllgorau CCC
Materion/Pryderon a godir gan ACau/ASau
Cyfarfodydd rhwng y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phenaethiaid Arolygiaethau
Rhaglen Arolygu Cymru
Rhaglen Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Estyn
Fframwaith Rheoli Estyn
Amcanion strategol a gweithredoedd ategol (cyhoeddwyd yn y Cynllun Blynyddol)
Prosesau Cynllunio Busnes Strategol a Rhaglennu Gwaith
System Rheoli Perfformiad yn Barhaus
Gweithdrefnau pennu cyllideb a rheoli cyllideb (Llawlyfr Cyllid)
Rheoli Prosiectau a Rhaglenni (e.e. Adroddiad Blynyddol)
Rheoli Risg
Polisi Gwrth-dwyll
Fframwaith Llywodraethu
Cytundebau partneriaeth a Memoranda Cyd-ddealltwriaeth
Polisïau, gweithdrefnau a chodau ymddygiad (yn gyson â modelau'r Gwasanaeth Sifil)
Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Swyddog Cyfrifyddu a Byrddau Gweithredol/ Strategol
Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Adolygu a monitro effeithiolrwydd Llywodraethu, Rheoli Risg ac adolygu'n fewnol a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Arweiniad Canolog
Arweiniad Trysorlys EM
DAOau Llywodraeth Cymru
Cod Llywodraethu Corfforaethol
Rheoli Arian Cyhoeddus (Cymru)
Arweiniad Rheoli Risg y Llywodraeth
Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus
Polisïau, cynlluniau gweithredol a chofrestrau risg Estyn
Grŵp Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am arweinyddiaeth gorfforaethol a chyflawni gweithgareddau gweithredol. Mae'n cynnal y fframwaith sicrwydd ac yn darparu tystiolaeth ategol i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Elfennau'r Map Sicrwydd
Llinell amddiffyn 1af
Datganiadau sicrwydd gan Gyfarwyddwyr / Cyfarwyddwyr Cynorthwyol
Sicrwydd cyflawni gweithredol, e.e. Diweddariadau Misol i Grwpiau
Rheoli Perfformiad yn Barhaus
Adrodd ar DP/ Gwybodaeth Reoli, yn cynnwys Holiaduron Cyn-arolygiad, Adborth a Chwynion
2il linell amddiffyn
Trosolwg y Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Strategol
Adolygiadau o'r cofrestrau risgiau
Sicrwydd rheolaeth ariannol (adroddiadau IRIS)
Grŵp Polisi Arolygu a Chydymffurfio
Sicrhau Ansawdd Arolygiadau (SAAr) a Sicrhau Ansawdd Adroddiadau (SAAd)
Sicrwydd (bwrdd) Prosiect AR
Sicrwydd diogelwch gwybodaeth (adolygiadau cydymffurfio Grŵp IG)
Adolygiadau o gofnodion gweithredu (ac adrodd drwy SharePoint)
Sicrwyddau 3ydd Parti (trefniadau contractiol)
3edd llinell amddiffyn
Archwilwyr mewnol (adroddiadau)
Archwilwyr Mewnol (hapwiriadau)
Adolygiadau allanol, e.e. gwiriadau cydymffurfio CSC
Achrediadau, e.e. Safon Iechyd Corfforaethol, BmP, y Ddraig Werdd, ISO
Sicrwyddau eraill
Archwilwyr Allanol
Gwaith partneriaeth a meincnodi (Arolygiaethau'r DU a SICI)

## 2.2 Adroddiad ar gyflogau a staff

Pennir cyflog Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 3 Atodlen 2 Deddf Addysg 2005.

Ar gyfer uwch aelodau staff parhaol eraill y Bwrdd, pennwyd eu cyflog gan Bwyllgor Cyflogau Estyn, sy'n cynnwys y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a phum cyfarwyddwr anweithredol, yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet ar gyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS).

Wrth lunio'i argymhellion, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y canlynol:


- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl fedrus a chymwysedig addas i arfer eu cyfrifoldebau gwahanol
- gwybodaeth feincnodi sydd ar gael gan Swyddfa'r Cabinet ac adrannau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys y rhai sydd agosaf at Estyn o ran lleoliad a math o waith
- y cyllid sydd ar gael i'r adran a'r cyngor sydd ar gael yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus a rôl rheoli perfformiad o ran sicrhau a chydnabod gwerth i'r sefydliad a gwobrwyo cyfraniadau at amcanion busnes ac amcanion corfforaethol


Mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o ran ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Wrth gytuno ar godiadau cyflog ar gyfer staff unigol, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y meini prawf canlynol:

- twf yr unigolyn o ran cymhwysedd
- yr her sy'n gysylltiedig â'r swydd
- hyder ym mherfformiad yr unigolyn yn y dyfodol

**Cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ôl categori staff yn 2023- 2024, 2024-2025 a 2025 - 2026**




Nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn 2025 -2026
Staff dros dro
1.02
0.00
2.17
AO
7.87
0.00
3.75
EO
17.28
0.67
4.38
HEO
7.89
0.00
1.83
SEO
4.42
0.00
0.00
Gradd 7
1.54
0.00
1.00
Secondeion
0.78
0.00
2.33
Gradd 6
33.06
0.00
36.67
Gradd 6 Rheoli
3.00
0.00
4.98
Uwch Wasanaeth Sifil
2.00
0.00
1.00
0.00
5.00
10.00
15.00
20.00
25.00
30.00
35.00
40.00
Benywaidd
Arall
Gwrywaidd

**Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl a buddion pensiwn uwch swyddogion Estyn (h.y. aelodau'r Bwrdd).**

**Tâl**1 **(cyflog, buddion mewn nwyddau a phensiynau)**

| | 2025 2026 | | | | | 2024 2025 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogion** | Cyflog £000oedd | Tâl Perfformiad ar Wahân £000oedd | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | Buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf | Cyfanswm[2] £000oedd | Cyflog £000oedd | Tâl Perfformiad ar Wahân £000oedd | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | Buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf | Cyfanswm[3] £000oedd |
| Owen Evans CBE, Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | **160-165** | **-** | **-** | **60** | **220-225** | **155-160** | **-** | **-** | **61**[4] | **215-220** |
| Claire Morgan, Cyfarwyddwr Strategol | **105-110** | **-** | **-** | **41** | **145-150** | **100-105** | **-** | **-** | **41** | **145-150** |
| Jassa Scott, Cyfarwyddwr Strategol | **105-110** | **-** | **-** | **26** | **130-135** | **100-105** | **-** | **-** | **63** | **165-170** |
| Mererid Wyn Williams, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Arolygu a Gwasanaethau | **95-100** | **-** | **-** | **26** | **120-125** | **95-100** | **-** | **-** | **55** | **150-155** |

[1] Archwiliwyd

[2] Bydd y Cynllun Unioni Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn effeithio ar y ffigurau hyn. Gweler yr adran "Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil" isod.

[3] Bydd y Cynllun Unioni Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn effeithio ar y ffigurau hyn. Gweler yr adran "Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil" isod.

[4] Ailddatganwyd oherwydd mireinio'r data a'r fethodoleg sylfaenol, yn hytrach na gwallau yn adroddiad y flwyddyn flaenorol.

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolog hyd 29 Mawrth 2026 | | | | | | | | | | |
| Rhidian Dafydd, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau Canolog | **95-100** | **-** | **-** | **39** | **135 - 140** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Jack Mansfield (Rheolydd Ariannol o 30 Mawrth 2026) | **0-5** | | | | **0-5** | | | | | |
| Dr Emyr Roberts, Cyfarwyddwr Anweithredol (hyd 31 Awst 2025) | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** | **5-10** | **-** | **-** | **-** | **5-10** |
| John Cappock, Cyfarwyddwr Anweithredol (o 1 Medi 2025) | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Yr Athro Charlotte Williams OBE FRS, Cyfarwyddwr Anweithredol (hyd 31 Awst 2025) | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** |
| Ravi Pawar, Cyfarwyddwr Anweithredol (o 1 Medi 2025) | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Anweithredol (o 1 Medi 2025) | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| David Jones OBE, Cyfarwyddwr Anweithredol | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** |
| Maria Rimmer, Cyfarwyddwr Anweithredol | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** | **5-10** | **-** | **-** | **-** | **5-10** |

## Hawliau pensiwn[5] i uwch reolwyr

| Swyddogion | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn fel ar 31/3/26 a'r cyfandaliad[6] cysylltiedig £000oedd | Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn £000oedd | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/26 £000oedd | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/25 £000oedd | Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £000oedd | Cyfraniad y cyflogwr at y cyfrif pensiwn partneriaeth i'r £100 agosaf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Owen Evans Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | 60-65 a chyfandaliad o 0 | 2.5 - 5 a chyfandaliad o 0 | 994 | 908 | 44 | - |
| Claire Morgan Cyfarwyddwr Strategol | 45-50 a chyfandaliad o 0 | 0 – 2.5 a chyfandaliad o 0 | 830 | 763 | 33 | - |
| Jassa Scott Cyfarwyddwr Strategol | 45-50 a chyfandaliad o 0 | 0 - 2.5 a chyfandaliad o 0 | 840 | 701 | 11 | - |
| Mererid Wyn Williams Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arolygu a Gwasanaethau Canolog | 35-40 a chyfandaliad o 0 | 0 - 2.5 a chyfandaliad o 0 | 661 | 610 | 13 | - |
| Rhidian Dafydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Canolog | 5 – 10 a chyfandaliad o 0 | 0 – 2.5 a chyfandaliad o 0 | 97 | 67 | 21 | |

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawliau wedi'u cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n destun trethi'r DU. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau cronnus a wnaed gan Estyn ac felly'n cael eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

### Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Caiff buddion pensiwn eu darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n gyfwerth ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, fe wnaeth yr holl weision sifil newydd eu penodi a'r mwyafrif o'r rheiny a oedd eisoes mewn gwasanaeth ymuno â chynllun **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cyfranogi ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae PCSPS yn cynnwys pedair rhan: 3 sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (**classic, premium** neu **classic plus**) gydag oedran pensiwn arferol yn 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa lawn (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol yn 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu, a thelir cost buddion gan arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy dan **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Fe wnaeth aelodau presennol o PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 aros yn PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheiny a oedd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i **alpha** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022.

Mae buddion pensiwn cronedig sydd wedi'u cynnwys yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn y mae'r Cynllun Unioni Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn effeithio arnynt wedi'u cyfrifo ar sail eu cynnwys yn y cynllun gwaddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Cynllun Unioni Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae sail y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod yr aelodau yr effeithir arnynt wedi'u dirwyn yn ôl i'r cynllun gwaddol perthnasol ar gyfer y cyfnod unioni, ac y bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl yn weithredol wrth ymddeol i

[5] Archwiliwyd

[6] Bydd y Cynllun Unioni Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn effeithio ar y ffigurau hyn. Gweler yr adran "Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil" isod

benderfynu derbyn buddion a gyfrifir o dan delerau cynllun alpha ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2022 yn lle hynny.

Bydd buddion PCSPS yr holl aelodau sy'n newid i **alpha** yn cael eu 'bancio', gyda'r rheiny â buddion cynharach yn un o'r adrannau cyflog terfynol o'r PCSPS yn cael y buddion hynny wedi'u seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer aelodau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha**. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80 y cyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â phensiwn cychwynnol o dair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddion **premium**, yn cronni ar gyfradd o 1/60 yr enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob diben, mae **Classic plus** yn gynllun hybrid gyda buddion mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn unol â **classic** a'r buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002 ymlaen wedi'u cyfrifo yn yr un modd ag yn **premium**. Yn **nuvos**, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth yn y cynllun.

Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff 2.3% o enillion pensiynadwy'r aelod yn y flwyddyn honno eu credydu i'w gyfrif pensiwn enilledig, a chodir cyfradd y pensiwn cronedig yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yn **alpha** yn cronni mewn modd tebyg i **nuvos**, ac eithrio mai'r gyfradd gronni yw 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y cyfyngiadau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** sy'n rhan o'r *Legal & General Mastertrust*. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn cyfateb y cyfraniad hwnnw hyd at uchafswm o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol yn sgil iechyd gwael). Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl ei dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiynadwy neu'n mynd y tu hwnt iddo. Yr oedran pensiwn ar gyfer aelodau **classic, premium** a **classic plus** yw 60 oed, 65 oed ar gyfer aelodau **nuvos**, a'r

oedran uwch sef 65 neu Oedran Pensiwn Gwladol ar gyfer aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu **alpha** – fel bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac **alpha**, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Gellir cael rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan: www.civilservicepensionscheme.org.uk

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion y rhoddwyd gwerth arnynt yw buddion yr aelod a gronnwyd ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn yn sgil ei aelodaeth lwyr yn y cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch yn unig y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod yn sgil prynu buddion pensiwn ychwanegol ganddo gyda'i arian ei hun. Caiff CETV ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fuddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Oes, a all fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu hawlio.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiant y farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal am golli swydd

**Pecyn ymadael: Adrodd ar gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael[7]**

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost |
|---|---|---|---|
| **<£10,000** | - | - | - |
| **£10,000 - £25,000** | - | 1 | 1 |
| **£25,000 - £50,000** | - | - | - |
| **£50,000 - £100,000** | - | - | - |
| **£100,000 - £150,000** | - | - | - |
| **£150,000 - £200,000** | - | - | - |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael** | - | 1 | 1 |
| **Cyfanswm cost adnoddau/£000** | - | **£10,000 - £25,000** | **£10,000 - £25,000** |

## Datgeliad cyflog teg

Mae'n ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng y Cyfarwyddwr sydd â'r cyflog uchaf yn Estyn a thâl cyfartalog y gweithlu. Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys yr eitemau y manylir arnynt yn y paragraff "Cyflog" uchod. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, taliadau diswyddo neu CETV pensiynau.

[7] Archwiliwyd

**Perthynas tâl**[8]

| | 2025 2026 £000oedd Prif Arolygydd | 2025 2026 £000oedd Cyflogai | 2025 2026 £000oedd Cymhareb | 2024 2025 £000oedd Prif | 2024 2025 £000oedd Cyflogai | 2024 2025 £000oedd Cymhareb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm tâl a buddion** | | | | | | |
| Cymhareb cyflog 25ain canradd | 163 | 37 | 4.39 | 158 | 34 | 4.65 |
| Tâl canolrifol | 163 | 89 | 1.82 | 158 | 87 | 1.82 |
| Cymhareb cyflog 75ain canradd | 163 | 89 | 1.82 | 158 | 87 | 1.82 |
| **Elfen gyflog y cyfanswm tâl** | | | | | | |
| Cymhareb cyflog 25ain canradd | 163 | 37 | | 158 | 34 | |
| Tâl canolrifol | 163 | 89 | | 158 | 87 | |
| Cymhareb cyflog 75ain canradd | 163 | 89 | | 158 | 87 | |

| **Newidiadau canrannol** | **2024-2025 i 2025-2026** | **2023-2024 i 2024-2025** |
|---|---|---|
| **% Newid o'r flwyddyn ariannol flaenorol o ran y Prif Arolygydd** | | |
| Cyflog a lwfansau | 3.16% | 3.27% |

[8] Archwiliwyd

| | | |
|---|---|---|
| Tâl perfformiad a bonysau | 0.00% | 0.00% |

**Newid % cyfartalog o’r flwyddyn ariannol flaenorol o ran cyflogeion yn eu cyfanrwydd**

| | | |
|---|---|---|
| Cyflog a lwfansau | 8.99% | 0.51% |
| Tâl perfformiad a bonysau | 0.00% | 0.00% |

Roedd tâl yn amrywio o £27,315 i £162,500 (2024/2025 = £24,420 - £157,406). Mae’r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl ar wahân sy’n gysylltiedig â pherfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw’n cynnwys taliadau diswyddo, taliadau dros dro, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau. Mae’r newid canrannol o un flwyddyn i’r llall yn adlewyrchu’r cynnydd yn nifer y bobl sydd ar gyflog uwch na’r llynedd.

**Owen Evans**
Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a’r
Swyddog Cyfrifyddu
30 Gorffennaf 2026

## Adroddiad staff

Roedd cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| Blwyddyn | Staff a gyflogir yn barhaol | Arall [1] | Cyfanswm staff |
|---|---|---|---|
| **2024-2025** | 132.11 | 10.07 | 142.1 |
| **2025-2026[9]** | 131.33 | 6.29 | 137.62 |

Mae cyfraddau salwch staff fel a ganlyn:

**Prif fesurau staff**

| Mesur | 2024-2025 | 2025-2026 |
|---|---|---|
| Cyfradd absenoldeb salwch | 5.2% | **2.5%** |
| Cyfran y staff yn cronni absenoldeb salwch | 42.3% | 35.7% |
| Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul cyflogai | 11.8 | **5.5** |
| Cyfartaledd y cyfnod absenoldeb | 14.6 | 7.7 |
| Achlysuron absenoldeb salwch (newydd) | 104 | 94 |
| Cyfran yr absenoldebau hirdymor | 83% | 67% |

Roedd iechyd meddwl yn cyfrif am 43% o'r holl absenoldebau salwch.

I gael gwybodaeth am ein dull o sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein harferion recriwtio a chadw, gweler tudalen 24 uchod.

**Cyfanswm cyfradd salwch o 2.5% yn erbyn targed o <4%**



[1] Mae staff arall yn cyfeirio at secondeion a staff asiantaeth.
[9] Archwiliwyd

## 2.3 Adroddiad atebolrwydd ac archwilio

**Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd**
**Barn ar y datganiadau ariannol**

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Estyn: Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu ariannol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi barn wir a theg am gyflwr materion Estyn ar 31 Mawrth 2026 ac am ei wariant net a'i ddefnydd o adnoddau, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r incwm a gwariant yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio adran y datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod tystiolaeth yr archwiliad rwyf wedi'i chael yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

**Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwyddau perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu'n gyfunol, fwrw amheuaeth sylweddol am allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol wedi'u disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Caiff sail gyfrifyddu busnes gweithredol Estyn ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a bennir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddo'n parhau i'r dyfodol.

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad a archwilir, a'm hadroddiad fel archwilydd ar hynny. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, a heblaw am y graddau a nodir yn eglur yn fy adroddiad fel arall, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad am sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd wrth gynnal yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi'u cham-ddatgan yn berthnasol. Os nodaf unrhyw anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu p'un a yw hyn yn peri cam-ddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar y gwaith a gyflawnais, bod cam-ddatgan perthnasol o ran y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd, yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau a Staff sydd i'w archwilio wedi'i baratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a gyflawnwyd yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn Rhagair y Prif Arolygydd, yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

### Materion yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn Rhagair y Prif Arolygydd, yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw neu nad oes ffurflenni sy'n ddigonol i'm harchwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a archwiliwyd yn cytuno â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF ynghylch cyflogau a thrafodion eraill wedi'i datgelu;
- na wnaed datgeliadau penodol o gyflogau a nodwyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth EF neu os nad yw rhannau o'r Adroddiad ar Gyflogau a Staff sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth ag arweiniad Trysorlys EF.

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;

- rheolaethau mewnol o'r fath y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn pennu eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatganiad perthnasol, p'un a yw hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad;
- asesu gallu Estyn i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Estyn yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn â ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol, p'un a yw hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n sicrhau y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn darganfod camddatganiad perthnasol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol y byddant yn unigol neu gyda'i gilydd yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Estyn a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Estyn sy'n ymwneud â'r canlynol:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll a ph'un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a
    - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried, fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y potensial am dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cydnabod gwariant, postio cyfnodolion anarferol, atal rheolaethau mynediad yn y cyfriflyfr ariannol;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Estyn yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Estyn yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y

cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith hanfodol ar weithrediadau Estyn;

- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd â phartïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, mae fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r hyn a ddatgelwyd yn y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd Strategaeth;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a luniwyd wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol; ac
- roeddwn hefyd wedi cyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm archwilio, ac roeddwn yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Estyn, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, sef www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm hadroddiad archwilydd.

### Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriedir gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu sydd, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â chwmpas ac amseriad cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Catherine Mealing-Jones

Archwilydd Cyffredinol Cymru

[Dyddiad]

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd




# Adran 3: Datganiadau ariannol

## 3.1 Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn

ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| | | 2025-2026 Alldro £000oedd | 2024-2025 Alldro (ailddatganwyd) £000oedd | |
|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | | | | |
| Costau staff | 2 | 13,926 | 13,641 | |
| Dibrisiant | 5a a b | 262 | 241 | |
| Tâl yr Archwilydd | 3 | 72 | 33 | ** |
| Gwariant arall | 3 | 3,468 | 3,213 | |
| **Cyfanswm adnoddau** | | **17,728** | **17,128** | |
| **Incwm amrywiol** | 3 | **(4)** | **(7)** | |
| **Incwm Grant** | 4 | **(565)** | **(498)** | * |
| **Costau gweithredu net am y flwyddyn** | | **17,159** | **16,623** | * |

* Ailddatganwyd 2024-2025 – gweler nodyn 1 i'r cyfrifon.

** Mae ffi archwilio 2025-2026 yn cynnwys taliad am waith sicrwydd ychwanegol yn gysylltiedig â newid system gyfrifyddu Estyn.

Adroddir ar y gwariant net fel segment unigol yn unol â Chynllun Blynyddol Estyn 2025-2026

Mae'r nodiadau ar dudalennau 75 i 85 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## 3.2 Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2026

| | | 2025-2026 £000oedd | 2025-2026 £000oedd | 2024-2025 £000oedd | 2024-2025 £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 5a | 231 | | 209 | |
| Asedau anniriaethol | 5b | 64 | | 99 | |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 5a | 46 | | 122 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | **341** | | **430** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 7 | 443 | | 458 | |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 8 | 39 | | 992 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **482** | | **1,450** |
| **Cyfanswm asedau** | | | **823** | | **1,880** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 9 | (2,246) | | (1,882) | |
| Rhwymedigaethau prydles | 11 | (46) | | (77) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(2,292)** | | **(1,959)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(1,469)** | | **(79)** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau | 10 | (55) | | (55) | |
| Rhwymedigaethau prydles | 11 | - | | (44) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | **(55)** | | **(99)** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **(1,524)** | | **(178)** |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | | **(1,524)** | | **(178)** |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Swyddog Cyfrifyddu a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 30 Gorffennaf 2026 gan:



**Owen Evans**
Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r
Swyddog Cyfrifyddu

30 Gorffennaf 2026

## 3.3 Llif Arian 2025-2026

| | Nodyn | 2025-2026 £000oedd | 2024-2025 (ailddatganwyd) £000oedd | |
|---|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | | |
| **Cost gweithredu net** | | **(17,159)** | **(16,623)** | * |
| **Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:** | | | | |
| Dibrisiant | 5a a b | 262 | 241 | |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill | 9 | 364 | (458) | |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy arall | 7 | 15 | (270) | * |
| Elfen llog ar daliadau rhwymedigaethau prydles | 11 | 1 | 2 | |
| **All-lif net arian parod o weithgareddau gweithredu** | | **(16,517)** | **(17,108)** | * |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | | |
| Prynu eiddo, cyfarpar ac offer | 5a | (146) | (36) | |
| Prynu asedau anniriaethol | 5b | (27) | (34) | |
| **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(173)** | **(70)** | |
| **Llifoedd arian o weithgareddau ariannu** | | | | |
| Gweithgareddau ariannu – ad-daliadau prydles | 11 | (76) | (78) | |
| Cyllid net a dderbyniwyd | | 15,813 | 17,615 | * |
| **Llif arian net o weithgareddau ariannu** | | **15,737** | **17,537** | * |
| **Cynnydd / (gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | | **(953)** | **359** | |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 8 | 992 | 633 | |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 8 | **39** | **992** | |

* Ailddatganwyd 2024-2025 – gweler nodyn 1 i'r cyfrifon.

## 3.4 Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr

| | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|
| **Diffyg cronedig ar 1 Ebrill 2025** | | **(178)** |
| Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2025-2026 | (17,159) | |
| Cymorth Grant Llywodraeth Cymru 2025-2026 | 15,813 | |
| Diffyg ar gyfer y flwyddyn | | (1,346) |
| **Diffyg cronedig ar 31 Mawrth 2026** | | **(1,524)** |

| | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|
| **Diffyg cronedig ar 1 Ebrill 2024** | | **(1,170)** |
| Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2024-2025 (ailddatganwyd *) | (16,623) | |
| Cymorth Grant Llywodraeth Cymru 2024-2025 | 17,615 | |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | 992 |
| **Diffyg cronedig ar 31 Mawrth 2025** | | **(178)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 78 i 89 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

* Ailddatganwyd 2024-2025 – gweler nodyn 1 i'r cyfrifon.

## 3.5 Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau

### 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2025-2026 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi cael eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae Estyn wedi dewis y polisi yr oedd yn ei farnu oedd y polisi mwyaf priodol ar gyfer ei amgylchiadau penodol, at ddibenion rhoi darlun cywir a theg.

Disgrifir y polisïau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd gan Estyn ar gyfer 2025-2026 isod a, heblaw am y newid i'r polisi cyfrifyddu a ddisgrifir ym mharagraff 1.1, maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

### 1.1 Newid i'r Polisi Cyfrifyddu

#### Natur y newid

Yn ystod y flwyddyn, newidiodd yr endid ei bolisi cyfrifyddu mewn perthynas ag Incwm Grant. Mabwysiadwyd y polisi newydd i gyfrif am Incwm Grant derbyniadwy yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn hytrach nag ochr yn ochr â Chymorth Grant o fewn y symudiad i Ecwiti Trethdalwyr.

Cymhwyswyd y newid hwn yn ôl-weithredol i'r datganiadau ariannol cymharol ar gyfer 2024-2025, yn unol ag IAS8 Polisïau Cyfrifyddu, Newidiadau i Amcangyfrifon Cyfrifyddu a Gwallau, fel y'u mabwysiadwyd gan FReM. Mae ffigurau cymharol wedi'u hailddatgan i adlewyrchu cymhwyso'r newid hwn i'r polisi cyfrifyddu yn ôl-weithredol.

Nid oes unrhyw effaith ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol nac ar falans Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr ar 31 Mawrth 2025. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad mewn gwariant net yn arwain at ailddatgan y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y symudiad ar Ecwiti Trethdalwyr a'r Datganiad o Lifoedd Arian ar gyfer 2024-2025 fel a ganlyn – [mae ffigurau mewn cromfachau yn dynodi gostyngiad]:

#### Effaith ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Nid oes unrhyw effaith ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

### Effaith ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| £'000 | Fel y datganwyd yn flaenorol | Addasiad | Ailddatganwyd |
|---|---|---|---|
| Incwm grant | Dim | 498 | 498 |
| Costau Gweithredu Net | 17,121 | (498) | 16,623 |

### Effaith ar Gronfeydd Wrth Gefn / Ecwiti Trethdalwyr

| £'000 | Fel y datganwyd yn flaenorol | Addasiad | Ailddatganwyd |
|---|---|---|---|
| Cyllid Grant Arall | 498 | (498) | Dim |
| Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig | 17,121 | (498) | 16,623 |

### Effaith ar y Datganiad o Lifoedd Arian

| £'000 | Fel y datganwyd yn flaenorol | Addasiad | Ailddatganwyd |
|---|---|---|---|
| Cost gweithredu net | 17,121 | (498) | 16,623 |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy arall | 51 | 219 | 270 |
| All-lif net arian parod o weithgareddau gweithredu | 17,387 | (279) | 17,108 |
| Cyllid net a dderbyniwyd | 17,894 | (279) | 17,615 |

## 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, ac fe'u haddaswyd i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog ac asedau anniriaethol yn ôl eu gwerth teg. Caiff gwariant ar wasanaethau, trwyddedau a thanysgrifiadau sy'n pontio mwy nag un flwyddyn ariannol eu trin fel costau o fewn y flwyddyn ariannol y gwneir y taliad ynddi, oni bai bod y swm rhagdaledig unigol yn fwy na £1,000.

## 1.3 Cymorth Grant

Caiff Cyllid Grant ar ffurf Cymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, i'w gymhwyso i gefnogi amcanion gweithredu parhaus Estyn, ei gredydu'n uniongyrchol i ecwiti fel cyllid ac adroddir arno yn y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr.

### 1.4 Incwm Grant

Caiff incwm mewn perthynas â grantiau neilltuedig, sy'n dderbyniadwy ar gyfer cyflawni prosiectau a gwasanaethau penodol a bennwyd ymlaen llaw, ei gredydu i incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### 1.5 Eiddo, cyfarpar ac offer ac Asedau anniriaethol

Caiff gwariant ei droi'n gyfalaf lle disgwylir i oes ddefnyddiol yr ased a brynwyd ymestyn dros nifer o flynyddoedd a bod cost yr eitem yn fwy na £1,000 neu gost clwstwr o eitemau tebyg e.e. gliniaduron, yn fwy na £10,000. Dangosir asedau sefydlog yn ôl eu cost llai lwfans ar gyfer dibrisiant (gweler nodyn 1.6 isod). O ystyried na ddelir unrhyw eiddo, ym marn Estyn, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth net hanesyddol yr asedau ar bapur a'u gwerth teg.

Caiff asedau sydd wedi'u dibrisio'n llawn ac nad oes ganddynt ddefnydd pellach eu dadgydnabod o'r Gofrestr Asedau Sefydlog, gan arwain at ostyngiadau mewn costau hanesyddol a balansau dibrisiant cronedig.

### 1.6 Dibrisiant

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau sefydlog trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Yn y flwyddyn 2022-2023, newidiom o godi am ddibrisiant yn flynyddol i godi amdano'n fisol – caiff dibrisiant ei godi o'r mis y caiff yr ased ei gaffael. Nid yw'r effaith ar y Cyfrif Incwm a Gwariant a'r gwerth Asedau Sefydlog yn berthnasol. Mae oes asedau fel a ganlyn o hyd:

- Offer TG 3-5 mlynedd
- Dodrefn a Gosodiadau 5 mlynedd
- Offer Swyddfa 5 mlynedd
- Systemau TG 5 mlynedd
- Asedau Anniriaethol 3 blynedd

Lle'r amherir ar ased sefydlog diriaethol, codir cost yr amhariad net ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y digwyddodd.

### 1.7 Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau sy'n debygol neu'n sicr o godi ond nad yw'r swm neu'r dyddiadau y byddant yn codi yn sicr. Caiff darpariaethau eu creu neu eu cynyddu trwy godi tâl ar wariant refeniw yn ystod y flwyddyn y cawsant eu creu. Pan eir i'r gwariant yn wirioneddol, codir tâl yn uniongyrchol ar y ddarpariaeth. Caiff y darpariaethau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn eu hystyried yn rhai byrdymor, o fewn blwyddyn a thymor canolig, rhwng dwy a phum mlynedd. Mae'r holl ddarpariaethau yn destun adolygiad blynyddol, i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol a

digonol i ariannu'r atebolrwydd penodol yn y dyfodol.

Mae'r ddarpariaeth yn y cyfrifon ar gyfer y gwaith sy'n ofynnol i adfer yr eiddo yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol cyn y denantiaeth. Mae hwn yn ofyniad yn y cytundeb les a gweithredir y cymal pan fyddwn yn gadael swyddfa Caerdydd.

### 1.8 Incwm gweithredu

Incwm gweithredu yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Estyn.

Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd ac incwm amrywiol arall, gan gynnwys incwm grant yn unol â nodyn 1.1. Mae Trysorlys EF wedi cyhoeddi cyfarwyddeb derbynebau sy'n caniatáu i Estyn gadw unrhyw gyfryw dderbynebau.

### 1.9 Costau staff a chostau eraill

Dadansoddir y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr rhwng Costau Staff a Chostau eraill yr aed iddynt wrth ymgymryd â diben Estyn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi un gyllideb i Estyn ar gyfer gwariant Refeniw a chyllideb ar wahân ar gyfer Dibrisiant. Mae gan Estyn yr hawl i ddyrannu ei gyllideb refeniw yn unol â'i ofynion gweithredol. Er mwyn tryloywder, adroddir ar 'Gostau eraill' yn Nodyn 3 yn erbyn isgyfansymiau ar gyfer gwariant Gweinyddol a gwariant Rhaglenni.

### 1.10 Treth ar Werth

Mae'r rhan fwyaf o'n gweithgareddau y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw'r dreth allosod yn berthnasol, ac nid yw treth fewnbwn ar bryniannau yn adferadwy. Codir cost TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei gynnwys yng nghost prynu gyfalafog asedau sefydlog. Lle codir treth allosod neu os yw TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb TAW.

### 1.11 Pensiynau

Mae darpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gymwys i gyn-weithwyr a gweithwyr presennol, ac fe'u disgrifir yn Nodyn 2. Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynlluniau yn cael eu hariannu, ac maent yn anghyfrannol ac eithrio mewn perthynas â buddion dibynyddion. Mae Estyn yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr trwy dalu i Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnol. Codir tâl ar PCSPS am y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynlluniau, mae Estyn yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

### 1.12 Costau ymadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Estyn dalu cost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion arferol PCSPS

mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Estyn yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fo'r rhwymedigaeth yn codi.

### 1.13 Asedau hawl i ddefnyddio

Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei fesur ar gost i ddechrau, sy'n cynnwys swm cychwynnol rhwymedigaeth y brydles wedi'i addasu ar gyfer costau uniongyrchol cychwynnol, rhagdaliadau a chymhellion. Wedi hynny, caiff asedau hawl i ddefnyddio eu mesur naill ai ar werth teg neu werth cyfredol mewn defnydd presennol yn unol ag asedau eiddo, cyfarpar ac offer.

Caiff y model mesur costau yn IFRS 16 (Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol) ei ddefnyddio fel procsi priodol ar gyfer gwerth cyfredol yn y defnydd presennol o werth teg. Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei ddibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth o'r dyddiad dechrau hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased hawl i ddefnyddio neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sydd gynharach. Caiff oes ddefnyddiol amcangyfrifedig asedau'r hawl i ddefnyddio ei phennu ar yr un sail â rhai asedau eiddo, cyfarpar ac offer. Caiff IAS 36 (Amhariad ar Asedau) ei ddefnyddio i bennu a oes amhariad ar yr ased hawl i ddefnyddio ac i roi cyfrif am unrhyw golled amhariad a nodir.

### 1.14 Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys dim ond y balans a gedwir yng nghyfrifon banc Estyn.

### 1.15 Masnach a Symiau Derbyniadwy Eraill

Mae masnach a symiau derbyniadwy eraill yn cynnwys gwariant rhagdaledig uwchlaw'r isafswm a ddisgrifir yn 1.2 Confensiwn cyfrifyddu, TAW adferadwy, incwm grant sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y flwyddyn a symiau derbyniadwy eraill.

### 1.16 Masnach a Symiau Taladwy Eraill

Mae masnach a symiau taladwy eraill yn cynnwys symiau sy'n daladwy yn gysylltiedig ag anfonebau cyflenwyr, croniadau ar gyfer gwariant yr aethpwyd iddo ond nad yw cyflenwyr wedi'i anfonebu hyd yn hyn, a chydnabyddiaeth o'r rhwymedigaeth i dalu tâl gwyliau i weithwyr sydd â balans gwyliau sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn.

### 1.17 Cysyniad Busnes Gweithredol

Disgwylir i Estyn barhau i fodoli am gryn amser eto a bydd yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni pob un o'i rwymedigaethau cyfredol pan fyddant yn aeddfedu yn y flwyddyn ariannol 2026-2027. Yn unol â hynny, mae wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail 'busnes gweithredol' ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

### 1.18 Gwyliau Cronedig

Cyfrifir am groniad gwyliau blynyddol staff yn Nhabl 2 – Costau staff. Mae'r croniad yn gyfrifiad i adlewyrchu'r gwyliau blynyddol net a oedd yn ddyledus neu sy'n ddyledus i staff

ar ddiwedd y flwyddyn. Mae symudiad yn y flwyddyn bellach yn cael ei godi fel croniad o fewn cyflogau.

## 2 Costau staff

| Disgrifiad | Cyfanswm 2025-2026 £000oedd | Staff wedi'u cyflogi'n barhaol £000oedd | Asiantaeth a secondeion £000oedd | 2024-2025 £000s |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | 9,325 | 9,325 | - | 8,986 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | 1,282 | 1,282 | - | 1,062 |
| **Costau pensiwn** | 2,657 | 2,657 | - | 2,572 |
| **Cyfanswm costau net** | **13,264** | **13,264** | **-** | **12,620** |
| **Ynghyd â:** | | | | |
| **Secondeion i mewn** | 394 | - | 394 | 434 |
| **Staff asiantaeth** | 205 | - | 205 | 408 |
| **Costau Cyfarwyddwyr Anweithredol** | 15 | 15 | - | 27 |
| **Ardoll Brentisiaethau** | 33 | 33 | - | 29 |
| **Ymadawiad cynnar** | 15 | **15** | - | 123 |
| **Cyfanswm costau staff** | **13,926** | **13,327** | **599** | **13,641** |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "Alpha" – yn gynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr nad ydynt yn cael eu hariannu ond nid yw Estyn yn gallu nodi'i gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol.

Fe wnaeth actiwari'r cynllun brisio PCSPS ar 31 Mawrth 2012. Gellir cael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil yma.

Ar gyfer 2025-2026, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £2.657m yn daladwy i PCSPS (2024-2025 £2.572m) ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% o dâl pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2025-2026 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

## 3 Costau eraill

| | 2025-2026 £000oedd | 2024-2025 (ailddatganwyd) £000oedd |
|---|---|---|
| **Costau Eraill 2024-2025** | | |
| Rhentu dan brydlesi gweithredu - Adeiladau | 18 | 14 |
| Costau adeiladau eraill | 139 | 131 |
| TG a thelathrebu | 885 | 694 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | 826 | 851 |
| Gwasanaethau Canolog Llywodraeth Cymru | 24 | 23 |
| Tâl yr Archwilydd – archwilio'r cyfrifon | 72 | 33 |
| Costau gweinyddol cyffredinol | 534 | 511 |
| **Eitemau heblaw am arian parod:** | | |
| Costau llog rhwymedigaethau prydlesi | 1 | 2 |
| Dibrisiant prydlesi (ased hawl i ddefnyddio) | 76 | 69 |
| - Dibrisiant asedau diriaethol | 124 | 114 |
| - Dibrisiant asedau anniriaethol | 62 | 58 |
| **Isgyfanswm** | **2,761** | **2,500** |
| Incwm Grant | (565) | **(498)** |
| Incwm Amrywiol | (4) | **(7)** |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **(569)** | **(505)** |
| **Cyfanswm costau gweinyddol net** | **2,192** | **1,995** |
| **Costau ychwanegol yn gysylltiedig ag arolygu** | | |
| Costau arolygwyr allanol | 887 | 806 |
| Costau cyffredinol yn ymwneud ag arolygu | 154 | 181 |
| **Isgyfanswm** | **1,041** | **987** |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y costau eraill** | **3,233** | **2,982** |
| **Heb Ddibrisiant** | **2,971** | **2,741** |
| **Heb Ddibrisiant ac Incwm** | **3,540** | **3,246** |

## 4 Incwm

| | 2025-2026 £000oedd | 2024-2025 (ailddatganwyd) £000oedd |
|---|---|---|
| **Incwm:** | | |
| Incwm grant | (565) | (498) |
| Amrywiol | (4) | (7) |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **(569)** | **(505)** |

## 5a Asedau Diriaethol Sefydlog

| | Offer TG £000oedd | Dodrefn a Gosodiadau £000oedd | Offer swyddfa £000oedd | Ased hawl i ddefnyddio £000 | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | **455** | **68** | **5** | **347** | **875** |
| Ychwanegiadau | 146 | - | - | - | 146 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **601** | **68** | **5** | **347** | **1,021** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | **297** | **21** | **1** | **225** | **544** |
| Codwyd yn y flwyddyn | 111 | 12 | 1 | 76 | 200 |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **408** | **33** | **2** | **301** | **744** |
| **Gwerth net ar y llyfrau** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **193** | **35** | **3** | **46** | **277** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | 158 | 47 | 4 | 122 | 331 |
| **Cyllid Asedau:** | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dan berchenogaeth** | 193 | 35 | 3 | - | 231 |
| **Dan brydles** | - | - | - | 46 | 46 |

## 5b Asedau Anniriaethol

| | **Meddalwedd** | **Deunyddiau hyfforddiant** | **Systemau TG** | **Datblygu'r wefan** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | - | 3 | 442 | 34 | 479 |
| Ychwanegiadau | - | 6 | 21 | - | 27 |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **-** | **9** | **463** | **34** | **506** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | - | 1 | 371 | 8 | 380 |
| Codwyd yn y flwyddyn | - | 1 | 50 | 11 | 62 |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **-** | **2** | **421** | **19** | **442** |
| **Gwerth net ar y llyfrau** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **-** | **7** | **42** | **15** | **64** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | - | 2 | 71 | 26 | 99 |

## 6 Offerynnau ariannol

Er bod Estyn yn derbyn ei arian trwy Lywodraeth Cymru ac nid trwy'r amcangyfrifon cyflenwi arferol, mae'r rhan fwyaf o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau nad ydynt yn rhai ariannol yn unol â'u gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig, ac felly mae Estyn yn agored i ychydig iawn o berygl o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad. Nid yw Estyn yn dal offerynnau ariannol sy'n gymhleth neu sy'n chwarae rôl sylweddol tymor canolig i dymor hir ym mhroffil risg ariannol Estyn.

### Risg hylifedd

Mae Estyn yn dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ofynion adnoddau ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd sylweddol.

### Risg o ran cyfradd llog ac arian tramor

Er bod y balans banc y mae Estyn yn ei ddal yn berthnasol, bach iawn yw'r risg sy'n

gysylltiedig â'r balans gan y'i cedwir o fewn set cyfrifon banc Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth (GBS). Mae'r holl adneuon perthnasol a'r holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol yn cael eu henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfradd llog neu risg o ran arian tramor.

### Risg credyd

Caiff Estyn ei ariannu, dan ddeddfwriaeth, gan Lywodraeth Cymru ac felly nid yw'n agored i risgiau credyd perthnasol.

## 7 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **2025-2026 £000oedd** | **2024-2025 £000oedd** |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy eraill | 180 | 101 |
| Cyllid grant derbyniadwy | - | 219 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 263 | 138 |
| **Cyfanswm y Dyledwyr** | **443** | **458** |

## 8 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | **31 Mawrth 2026 £000oedd** | **31 Mawrth 2025 £000oedd** |
|---|---|---|
| **Balans Agoriadol** | 992 | 633 |
| Mewnlif/(all-lif) arian parod net | (953) | 359 |
| **Balans Terfynol** | **39** | **992** |

## 9 Symiau Taladwy a Chroniadau

| | 31 Mawrth 2026 £000oedd | 31 Mawrth 2025 £000oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Symiau taladwy | 593 | 301 |
| Cyllid y gyflogres | 1,653 | 1,581 |
| **Cyfanswm** | **2,246** | **1,882** |

## 10 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

Mae darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau o £55,000 (31 Mawrth 2025 = £55,000) yn ymwneud â rhwymedigaethau sy'n deillio o ailosod y swyddfa sydd ar brydles i'w chyflwr gwreiddiol wrth ddod â'r brydles i ben ym mis Hydref 2026.

## 11 Prydlesi asedau hawl i ddefnyddio

Mae asedau hawl i ddefnyddio yn ymwneud ag adeiladau ar brydles nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o adeiladau buddsoddi a chânt eu cyflwyno yn Nodyn 5a – Eiddo, Cyfarpar ac Offer. Un brydles yn unig sydd gan Estyn, sef swyddfa Llys Angor. Daw'r brydles i ben ym mis Hydref 2026 ac roedd yn cynnwys cymal terfynu ar 1 Tachwedd 2023 ac 1 Tachwedd 2024, na chafodd y naill na'r llall ohonynt eu cyflawni.

Mae asedau hawl i ddefnyddio wedi'u mesur yn ôl gwerth presennol rhwymedigaeth y brydles, wedi'i ddisgowntio ar y gyfradd fenthyca gynyddrannol sy'n cael ei hyrwyddo ym mhapurau Trysorlys PES. Caiff y model costau ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer gwerth cyfredol y defnydd presennol mewn blynyddoedd dilynol.

| | Rhwymedigaethau prydles £000oedd |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | (121) |
| Ychwanegiadau yn y flwyddyn | - |
| Taliad prydles | 76 |
| Tâl llog | (1) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026 (atebolrwydd cyfredol)** | **(46)** |

## 12 Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2026 (31 Mawrth 2025 – Dim).

## 13 Ymrwymiadau eraill

Nid yw Estyn wedi cytuno ar unrhyw gontractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesi gweithredu) ar 31 Mawrth 2026 (nid oedd unrhyw gontractau na ellid eu canslo ar 31 Mawrth 2025).

## 14 Rhwymedigaethau digwyddiadol

Ar 31 Mawrth 2026, roedd Estyn yn destun cyfres o gamau cyfreithiol, a ddechreuodd ym mis Medi 2025, yn ymwneud ag arolygiad. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw arwydd o'r canlyniad tebygol (os o gwbl); fodd bynnag, rydym wedi cael cyngor cyfreithiol ynghylch rhinweddau'r hawliadau ac wedi mynd i gostau wrth baratoi amddiffyniad. Bydd angen ymgymryd â'r broses briodol cyn y gallwn asesu unrhyw ganlyniadau ariannol a all godi.

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol ar 31 Mawrth 2025.

## 15 Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru a Medr yn bartïon sy'n gysylltiedig ag Estyn. Dyma drafodion perthnasol â Llywodraeth Cymru a Medr yn ystod 2025-2026:

- cyllid Cymorth Grant o £15.813m a £433,000 o incwm grant gan Lywodraeth Cymru. (2024-2025: Cymorth Grant o £17.615m ac incwm grant o £448,000). Incwm grant o £32,000 gan Medr (2024-2025 £50,000).
- talom £13.486m i Lywodraeth Cymru, yn bennaf i ad-dalu cyflogau staff a didyniadau cyfatebol y maent yn eu talu ar ein rhan (£11.7m yn 2024-2025)
- ar 31 Mawrth 2026, roedd gennym £1.134m o groniadau gyda Llywodraeth Cymru (£1.09m 2024-2025) a £36,000 o ddyledwyr (2024-2025: £219,000).

Nid ymgymerodd unrhyw aelod o'r bwrdd, rheolwr allweddol na phartïon cysylltiedig eraill ag unrhyw drafodion perthnasol gydag Estyn yn ystod y flwyddyn.

## 16 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Mae Estyn wedi ymrwymo i gytundeb prydles ar gyfer adeilad swyddfa yn Llys Angor ar gyfer y cyfnod o 1 Tachwedd 2026 hyd 31 Hydref 2030. Yn unol ag IFRS 16, bydd y gwerth cyfalafedig a rhwymedigaeth prydles taliadau prydles yn y dyfodol, yr amcangyfrifir ei fod tua £300,000, yn cael eu cydnabod yn 2026-2027.

# Atodiad: Rhestr o acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

| | |
|---|---|
| AADY | Arolygydd Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| AC | Arolygydd Cofnodol |
| ACALl | Arolygydd cyswllt awdurdodau lleol |
| ACof | Arolygydd Cofrestredig |
| ACofM | Arolygydd Cofrestredig Meithrin |
| ADY | Anghenion dysgu ychwanegol |
| ADYTA | Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg |
| AEF | Arolygydd Ei Fawrhydi |
| AGA | Addysg gychwynnol athrawon |
| AGC | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| ARAC | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| CETV | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod |
| CGOA | Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad |
| CPCP | Y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth |
| CSOPS | Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill |
| DP | Dangosydd Perfformiad |
| FOIA | Deddf Rhyddid Gwybodaeth |
| FReM | Y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol |
| FfLlRh | Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd |
| GALlL | Gwasanaethau addysg llywodraeth leol |
| GBS | Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth |
| GDD | Grant Datblygu Disgyblion |
| IFRS | Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol |
| ISAs(UK) | Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y Deyrnas Unedig |
| JICPA | Adolygiad ar y cyd gan arolygiaethau o drefniadau amddiffyn plant |
| LASC | Dosbarthiadau arbenigol awdurdod lleol |
| NED | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| PAEF | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| PCS | Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol |
| PCSPS | Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil |
| PPIA | Plant, Pobl Ifanc ac Addysg |
| SA | Swyddog arweiniol |
| SCS | Uwch Wasanaeth Sifil |
| SICI | Cynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau |
| slDAO | Llythyrau Cymru Annwyl Swyddog Cyfrifyddu |
| SoFP | Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol |
| TAW | Treth ar Werth |
| UCD | Uned cyfeirio disgyblion |

| | |
|---|---|
| UP | Egwyddorion Sylfaenol |
| YEA | Ymweliad Estynedig ACALl (arolygydd cyswllt awdurdodau lleol) |